

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 368 - 60c
Tachwedd 2018

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Rhian
wedi seiclo
400 milltir**



Tudalen 9

**Cadwyn
Cyfrinachau
arall**



Tudalen 16

**Lluniau C.Ff.I.
Llanllwni yn y
'Steddfod**



Tudalen 25 a 26

Glaw a mwy o law..



Stryd y Bont, Llanbedr. Llun: Terry Davies.



Teras yr Orsaf, Llanybydder. Llun: Gary Jones.



Co-op Llanbedr. Llun: Tim Jones.



Teras Highmead, Llanybydder.
Llun: Linda Misby Selliek.

Eisteddfod C.Ff.I.



Enillwyd Cadair Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr gan Carwen Richards, C.Ff.I Dyffryn Cothi a'r Goron gan Sioned Bowen, C.Ff.I Llanllwni. Yn y llun hefyd mae Arwyn Davies, Llywydd y Sir; Hywel Griffiths, beirniad a Mared Williams, Cadeirydd y Sir.

Siec o £5,100



Cynhaliwyd cinio blynyddol Treialon Cŵn Defaid a Sioe Cwmsychpant a'r Cylch yn Nhafarn y Llew Coch, Drefach Felindre. Yn ystod y noson, cyflwynwyd siec o £5,100 i elusen sioe 2018 sef Diabetes Cymru. Pleser oedd cael cyflwyno'r siec i Bet Davies sef cynrychiolydd yr elusen. Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn ddiffuant i bawb a gefnogodd y sioe mewn unrhyw fodd gan sicrhau elw sylweddol a gyfer yr elusen.



Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Llongyfarchiadau i dîm gwyrdd Adran Llambled a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth Pêl-droed Rhanbarth i Adrannau yn ystod y mis. Daeth y tîm yma yn 2il. Hefyd, bu tîm coch o'r Adran yn cystadlu a chyrraedd y rownd gynderfynol. Diolch i Dyfed a Chris am eu hyfforddi.

Ffarwelio â Cweinidog

Roedd Sul olaf mis Medi yn Sul arbennig yn hanes Cylch Bedyddwyr Gogledd Teifi – er nad o reidrydd yn Sul eithriadol o lawen. Dyma oedd Sul olaf y Parchedig Jill Tomos yn weinidog arnom fel chwech o eglwysi. Cynhaliwyd oedfa unedig yn Aberduar; daeth tyrfa gref o'r eglwysi, a rhai o enwadau eraill, i gefnogi.

Cymerwyd rhan gan nifer o blith yr eglwysi – Janet Evans o Noddfa (Llambled), Gwen Davies o Bethel (Silian), Sulwen Lloyd o Seion (Cwrtnewydd), Emyr Jenkins o Aberduar, a Carys Wilson o Brynhafod (Gorsgoch). Hefyd, unawd gan Elan Jones o Noddfa, a gair o werthfawrogiad gan Mair Jones o Brynhafod, sy'n gadeirydd y Cylch. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Rhiannon Lewis.

Cafwyd gair gan Anne Davies ar ran Banc Bwyd Llambled, a chan y Parchedig Densil Morgan ar ran Cadwyn Teifi – dwy elusen o ddewis Jill, yn hytrach na derbyn tysteb bersonol iddi i hunan.



Roedd hi'n ddymuniad gan aelodau'r Cylch fodd bynnag i Jill dderbyn rhodd i gofio am ei chyfnod o 15 mlynedd yn weinidog, felly comisiynwyd Aerwen Griffiths, artist lleol, i wneud darlun o'r chwe chapel. Cyflwynwyd y llun i Jill gan ddau gyn swyddog o'r Cylch, Janet Evans a Dewi Davies.

Awgrymwyd nad 'llawen' efallai yw'r ansoddair gorau i ddisgrifio'r Sul. Byddwn – ac rydym eisoes – yn gweld eisiau Jill. Fodd bynnag, dymunwn yn dda iddi hi ac i Hywel ar eu cyfnod nesaf yn y gogledd. A chyfrifwn hi'n destun diolchgarwch fod gennym weinidog newydd sydd wedi dechrau ar ei waith gyda thaerineb a gofal. Dymunwn fendith yn helaeth ar Densil Morgan a'i briod, Ann, yn y gwaith o fugeilio eglwysi'r Cylch.



Trydarodd
[@Clonc360](#)
Hydref 12

Llongyfarchiadau i dîm [@Cloncyn](#) a fuodd yn cystadlu yn Steddfod Hanner Call a Dwl Papurau Bro Ceredigion [#Felinfach](#).
Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@cffi_llanllwni](#)
Hydref 12

Cystadleuaeth Stori a Sain 3 tîm o'r clwb.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@cffi_broddeir](#)
Hydref 8

Cip 'olwg ar beth sydd wedi bod yn digwydd yn y clwb dros yr wythnosau diwethaf.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@Craffwr](#)
Hydref 6

Y sgôr hanner amser yn [#Llanbed](#):
[@LampeterTownRFC](#) 3
[@Aberaeronrugby](#) 5

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
[@Clonc360](#)
Hydref 6

Llongyfarchiadau i [@HociLlanybydder](#) am ennill yn erbyn ail dîm Penybont bore ma 6 i 0.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
[@Clonc360](#)
Medi 30

Oedfa gofiadwy heddiw yn Aberduar, oedfa olaf [@JillTomos](#) yn y Cylch. Dymuniadau gorau Jill, a diolch am bopeth.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Tachwedd Gwyneth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder 480683
Rhagfyr Lois Williams, Crynffyn, Cwmann 422700
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Siwan Richards a Lois Williams.

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambod Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambod 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Gofynnir i bawb ddatgan eu bod wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfôn pob adroddiad i Bapur Bro Clonc / gwefan Clonc a gwefan Clonc360 a wedi sicrhau caniatâd rhiant neu warcheidwad pob plentyn dan 13 oed.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Siop J H Roberts a'i feibion, Y Stryd Fawr, Llambod.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50. • Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Morus y Gwynt ac Ifan y Glaw

Do fe ddaeth Storm Callum a gadael ei hol ar yr ardal. Bu'n rwystr i drefniadau unigolion ar y Sadwrn hwnnw ond yn waeth na hynny bu'n ffwdan aruthrol i'r rhai hynny a ddioddefodd ei heffaith.

Bu hewlydd yr ardal ar gau drwy ddydd Sadwrn y 13eg oherwydd llifogydd y Teifi ac afonydd llai. Doedd dim modd teithio o Gwmann i Lanbed. o Gwmann i Gellan, o Bencarreg i Gwmann, o Llanybydder i gyfeiriad Alltyblaca ac ym Metws Bledrws.

Gwelwyd oedi ar hewlydd eraill hefyd gyda dŵr glaw yn gwneud amodau gyrru'n beryglus yn nhref Llambod, Llanybydder a phentrefi Drefach a Llanllwni. Effeithiwyd ardaloedd cyfagos fel Llandysul, Castell Newydd Emlyn, Pumsaint ac Aberaeron yn ogystal.

Dywedodd llygad dyst iddo weld nifer fawr o geir yn ceisio croesi'r dŵr yn Llambod, a methu. Yn ystod y dydd daeth cyfanswm o wyth car BMW i stop oherwydd effaith y llifogydd. Fore Sul, gwelwyd cerbydau adfer ceir yn eu casglu un ar ôl y llall.

Gwnaed niwed mawr i gartrefi preswyl ac adeiladau masnachol yn Llambod a Llanybydder. Bu archfarchnad y Co-op ar gau am bythefnos oherwydd olion y dŵr yno ac o ganlyniad amddifadwyd preswylwyr Llambod o wasanaeth y Swyddfa Bost.

Profiad anymunol iawn yw llifogydd yn y tŷ gyda niwed i eiddo personol a lleithder, a'r cyfan yn anghyfleus dros ben. Gyda'r tŷ fel arfer yn hafan glud a diogel i aelodau'r teulu, mae niwed a achosir gan ddŵr fel hyn yn gallu troi bywyd teuluol ben i waered. Mae'n fwy na niwed cosmetig yn unig.

Gwelwyd ysbryd cymunedol ar ei orau yn yr ardal wrth i gymdogaion a ffrindiau helpu i lanhau cartrefi'r rhai a effeithiwyd. Bu llawer yn garedig iawn yn cyfrannu bywyd a dillad a benthyg celfi i'r rhai a ddioddefodd. A chynhaliwyd digwyddiad yn Llanybydder er mwyn ariannu pecynnau bywyd i ddioddefwyr lleol.

Bu'r ardal yn ddigon ffodus ar y cyfan na chollwyd bywydau yma, a bu'r difrod tipyn gwaeth mewn rhai ardaloedd eraill, ond mae'r hyn ddigwyddodd yn ein cymunedau yn ein hatgoffa pa mor beryglus yw grym natur.

Cloncy

Ble aeth pawb?



Aelodau Urdd Ysgol Llanybydder tua 1925. Rhes gefn: Johnnie Wenallt, Johnnie Gwrdd Cottage, Mollie Gilfachwen, Pattie Evans Bros, Maggie Lewis Stafellwen, Ieuan Smithfield, Willie Graigina. Ail res o'r cefn: Ifan Saer, ?, Rachel Mary Brynbedw, Lorraine Evans Bros, Jonnie Wernant, Tom Glanrhyd. Trydydd rhes: Clifford Bush, Lilian Hughes, Sally Beehive, Ieuan Station Terrace, Douglas Wernant. Rhes flaen: Dave Birchcourt, Dilys Red Lion, Mehan Williams Highlands.

Sefydlwyd y gangen gan Mr Tom Bowen a oedd yn athro yn yr ysgol. Symudodd llawer o'r aelodau uchod i Ysgol Ramadeg Llandysul neu i'r Central School yn Llambod. Cynhaliwyd cyfarfodydd yr Urdd yn wythnosol yn y 'Long Room', lle'r oedd Ysgol Ramadeg Llanybydder un amser - uwchben siop Sadler, Stryd y Bont.

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

CYMRAG

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru



TACHWEDD

- 1 Bore Hwyl Wcw yng Nghanolfan Hamdden Llanbed am 9.30yb
- 1 a 3 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion.
- 3 Noson 'Tân Gwyllt' yn y Llew Du, Llanybydder. Y gathiau yn agor am 6.00y.h. a'r arddangosfa am 6.30y.h.
- 4 Taith Dractorau i ddathlu 75 mlynedd C.Ff.I. Llanllwni. Ymgynnull ar Iard, T.L.Thomas yn brydlon am 10:30y.b.
- 5 Oedfa Weddi Chwariydd Bedyddwyr y Byd Aberduar am 1.30y.p.
- 5 Tân Gwyllt Y Ford Gron Llanbed yn "Gwili Tractors" am 7.00y.h.
- 6 Pwyllgor Blynyddol Buddiannau Henoed Llanybydder yn Festri Aberduar am 7.00y.h. Croeso i aelodau newydd.
- 11 Sul y Cofio ger Cofgolofn Drefach am 1.00 y.p.
- 11 Gwasanaeth Coffa Arbennig am 2.00y.p yn Eglwys Llanwenog – Trefnir gan aelodau'r Cyngor Cymuned.
- 11 Dadorchuddio cofgolofn Llanfair Clydogau am 2.30y.p.
- 12 Cinio Blynyddol Merched y Wawr Llanbed yn Nhafarn Newydd, Llanddewi Brefi 7y.h.
- 19 Bingo Eglwys Sant Luc Llanllwni yn y Talardd am 7.30y.h.
- 20 Cyfarfod Cyhoeddus i sefydlu Pwyllgor Apêl Eisteddfod Ceredigion 2020 i Blwyfi Llanwenog a Llanwnnen yn Ysgol Dyffryn Cledlyn, Drefach am 7.30y.h. Croeso cynnes i bawb.
- 20 Cyfarfod o Bwyllgor Gŵyl Dewi Llanbed am 7.30 yn Neuadd Fictoria er mwyn trefnu Gorymdaith Gŵyl Dewi Llanbed 2019. Croeso cynnes.
- 23 Noson Fingo Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion yn Nhafarn Ffostrasol.
- 23 Lansio Cronfa Apêl Llanbed ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 am 7.00y.h. yng Nghlwb Rygbi Llanbed.
- 23 Noson Gymdeithasol Plaid Cymru Llanbed yn y Clwb Rygbi am 7.30y.h. Adloniant gan Bois y Rhedyn.
- 24 Ffair Nadolig Prifysgol Y Drindod Dewi Sant Llanbed 12.00 - 4.00yp.
- 25 Oedfa Sul yr Urdd Noddfa am 5.00y.p.
- 27 Bingo Cylch Meithrin Llanybydder yn y Clwb Rygbi am 8.00yh.
- 29 Noson lansio llyfr dathlu addysg Cwrtnewydd yn Ysgol Cwrtnewydd am 7.30y.h.
- 30 Ffair Nadolig Ysgol Carreg Hirfaen am 5.00y.h. yn yr ysgol.

RHAGFYR

- 1 Neuadd y Coroniad, Pumsaint. Cyngerdd yng nghwmni - Ar Wasgar, Eryl Morgan a Glasnant Dafydd am 7.30. Mynediad £5 (plant i dalu wrth y drws). Manylion pellach – Christine 01558 685439.
- 1 Ffair Nadolig yn Ysgol Llanllwni gyda nifer o stondinau, gweithgareddau i'r plant, ymweliad gan Siôn Corn a lluniaeth. Croeso cynnes i bawb. Trefnir gan Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol a'r Ysgol Feithrin.
- 3 Plygain Traddodiadol Capel y Coleg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Campws Llanbedr Pont Steffan am 7.00y.h. Lluniaeth i ddilyn yn Yr Hedyn Mwstard. Croeso cynnes iawn i bawb.
- 4 Ffair Nadolig Ysgol Bro Pedr yn yr ysgol am 6.00y.h.
- 5 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p. Croeso cynnes i bawb.
- 6 Siopa Hwyr yn Llanbed 4 o'r gloch ymlaen.
- 9 Ffair Nadolig Gorsgoch yn Neuadd yr Hafod o 11yb i 4yp. Croeso cynnes i bawb.
- 9 Cyngerdd Nadolig Eglwys Sant Iago Cwmman yng nghwmni Côr Merched Bro'r Mwyn am 6.00y.h.
- 15 Ffair Nadolig Cylch Meithrin Llanybydder yn y Llew Du am 10.00y.b.
- 16 Gwasanaeth Carolau Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion yn Eglwys Santes Non, Llanerchaeron.

2019

IONAWR

- 26 Welsh Whisperer yn y Llew Du, Llanybydder am 9.30y.h. gyda'r elw yn mynd tuag at Bwyllgor y Pentref.

CHWEFROR

- 15 Sefydliad Prydeinig y Galon, Cangen Llanybydder a Llambled – Cyngerdd yng nghwmni Côr Cardi-Gân ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant Llanbed.
- 16 Gŵyl Gwrw a Seidr Llanbed ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant Llanbed o 12.00y.p. tan 11.00y.h.
- 19 Cerdd Llambled yn cyflwyno Isatah a Braimah Kanneh-Mason yn Neuadd Ysgol Bro Pedr am 7.30y.h.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio cyflawn ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weinï gysurus Clwb Rygbi Llambled yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael

Cwrtnewydd

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Elgan Jones, Gwel y Cledlyn yn gwella yn dilyn ei arhosiad yn Ysbyty Glangwili yn ystod y mis.

Capel Seion

Mae'n bleser gennym fel aelodau i groesawu ein gweinidog newydd – Y Parch Densil Morgan. Pob dymuniad da i chi a'ch priod Ann i'n plith.

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

Masnachwyr coed, ffensio a nwyddau adeiladu o bob math. Tanwydd gan gynnwys nwy FloGas a glo caled a meddal o'r ansawdd gorau

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921

☎ 07867 945174

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Peiriannydd Gwres Canolog Trwsio, gwasanaethu a gosod boeler

Ffôn: 07811052757

Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach cysylltwch â

Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffynau Olew
- Pymptiau Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Cwmann



2. Lena Williams, 39 Heol Hathren, Cwmann, 79. 3. Nerys Beaumont, Trefin, Cwmann, 27. 4. Marian Thomas, Brondeifi, Cwmann, 66. 5. Tegwyn Lloyd, Penybont, Pumsaint, 87. 6. Aneurin Jones, Hathren, Heol y Bont, Llambled, 144. 7. Eifion Evans, Beilicoch, Cwmann, 14.

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Emyr a Michelle, 17 Heol Hathren ar enedigaeth ei ŵyr bach. Mab bach i Leah a Jon, Nantyfedwen. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.

Sul y Cofio

Cynhelir Sul y Cofio yng Nghwmman eleni ar Ddydd Sul Tachwedd 11eg am 11 o'r gloch. Croeso Cynnes i bawb i ddod i gofio am y rhai sydd wedi aberthu eu bywydau er mwyn rhyddid. Mae eleni hefyd yn ganmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, 1918 - 2018 a byddai'n hyfryd gweld mwy o bobl yno.

Enillwyr Misol o'r Clwb 225

Pwyllgor Pentref Cwmman Mis Hydref - 1. Anita Williams, Gwelycoed, Cwmman, 187. 2. Glesni Thomas, 1 Heol-Hathren, Cwmman, 163. 3. Owain & Bethan Jones, Trywerin, Cwmman, 150. 4. Tom Harries, Castle-View, Llanllwni, 175. 5. Fiona Jones, Llysteifi, Cwmman, 121. 6. Eric Harries, Aberystwyth, 70. 7. Elfan a Dorothy James, Caffi Marc Lane, Llambled, 235.

Enillwyr Misol Clwb 125

Neuadd Sant Iago Hydref - 1. Fiona Jones, Llysteify Cwmman, 52.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â Kay a Dafydd a'r teulu, Pantmeiniog ar farwolaeth ei thad yn ystod y mis.

Hefyd ag unrhyw deuluoedd eraill sydd wedi colli anwyliad.

Diolch

Dymuna Gwen Jones, Gellidewi a'r teulu ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a'r consym a estynnwyd iddynt yn ystod salwech Eiddig ac hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth yn ddiweddar. Diolch hefyd am y cyfraniadau hael, er cof, tuag at elusen Parkinson. Derbyniwyd dros £3,000. Diolch hefyd i bawb a gymerodd ran yn yr angladd a gynhaliwyd yng Nghapel Bethel Parc-y-rhos.

Cynrychioli Cymru

Dewiswyd Beca Roberts i gynrychioli Cymru o dan 17 oed, Digwyddiadau cyfunol. Fe fydd hi'n cystadlu yn yr Alban yn ystod y

Alltyblaca



Ocsiwn

Ar y 26 Medi cafwyd ocsiwn gyda Mrs Sara Humphreys Jones a Teifi yn Frongelli, Alltyblaca. Agorwyd y noson gan y Cynghorydd Euros Davies a diolch iddo am ei gyfraniad hael. Y gwerthwr ar y noson oedd Mr Mark Evans o Evans Bros a diolch yn fawr iddo am ei waith arbennig a'i gefnogaeth bob amser. Gwnaethpwyd elw o dros £800, hanner yn mynd tuag at elusen Sefydliad y Galon a'r hanner arall at Ymchwil Cancr.

Llanwnnen

Pwyllgor Lles – Cinio i'r Henoed

Mae'r Pwyllgor Lles yn trefnu cinio canol dydd i'r henoed sy'n byw yn nhalgylch pentref Llanwnnen. Cynhelir y cinio ddau gwrs ddydd Mercher, 21 Tachwedd, 2018 am 12.30 o'r gloch yng Nghegin Gareth a'r pris yw £18.00 y pen. Bydd y Pwyllgor Lles yn cyfrannu £10 tuag at ginio pob un o'r trigolion sy'n 70 oed neu'n hŷn. Mae croeso i eraill nad ydynt wedi cyrraedd oed yr addewid ddod i'r cinio, os bydd y niferoedd yn caniatáu. Enwau ac arian i Erika Davies, Felinban 01570 434548 erbyn 8 Tachwedd, plis.

Sefydliad y Merched

Nos Lun, 1 Hydref cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol Sefydliad y Merched Llanwnnen yn Festri Capel-y-Groes a chafwyd cwmni Mrs Brenda Wright a Mrs Carole Lovell, Ymgynghorwyr i'r Sefydliad. Tynnwn nhw sylw at y gwaith a'r cyfleoedd a gynigir gan Ffederasiwn Ceredigion a'r cyrsiau a'r tripiâu a drefnir gan y Ffederasiwn Cenedlaethol yng Ngholeg Denman. Carol Thomas, fu'n llywyddu yn y cyfarfod a chafwyd adroddiad cryno ganddi hi ac Ann Hughes, yr Ysgrifenyddes ar weithgareddau'r flwyddyn a aeth heibio yn ogystal ag adroddiad ar drafodion y cyfrifon gan Ceinwen Roach, y Trysorydd. Yna aethpwyd ati i ethol swyddogion am y flwyddyn 2018/19 ac ail-etholwyd pawb i'w swyddi presennol: Llywydd - Carol Thomas; Is-lywyddion - Gwen Davies ac Avril Jones; Ysgrifenyddes - Ann Hughes; Trysorydd - Ceinwen Roach; Trefnydd y Rhaglen - Gwen Davies ac Ann Hughes; Yng ngofal y te a'r raffl - Doris a Glenys Jones; Gohebydd y Wasg - Carol Thomas; Cynrychiolwyr ar Bwyllgor Lles y Pentref - Gwen Davies a Carol Thomas. Ar ddiwedd y noson mwynhaodd pawb baned o de a chynhaliwyd y gystadleuaeth fisol, sef y botel bersawr fwyaf deniadol i'r llygad. Y beirniaid oedd Mrs Wright a Mrs. Lovell a'r enillydd oedd Ceinwen Roach, gydag Avril Jones yn ail ac Alice Davies yn drydydd. Bydd yr aelodau yn cyfarfod nesaf nos Lun, 5 Tachwedd am 7.30pm yn Festri Capel-y-Groes gyda noson o addurno cacennau yng nghwmni Cacennau Ruth. Estynnir croeso cynnes i aelodau newydd.

Gorsgoch



Rhai o Swyddogion y Neuadd yn cyflwyno siec am £500.00 i Graham Jones, Beiciau Gwaed Cymru wedi diwrnod codi arian nôl ar ddechrau'r flwyddyn mewn sioe Ffasiwn a the prynhawn.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Frank a Rowena Sisto, Brynaerau ar enedigaeth wyres fach - Theia Mair. Merch fach i Caryl a Chris a chwaer fach i Trystan a Daniella.

Diolch

Diolch i bawb am eu cefnogaeth i

fore coffi MacMillan yn y neuadd y mis diwethaf. Cafwyd bore hwylus iawn.

Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig Gorsgoch ar ddydd Sul Rhagfyr 9fed o 11yb i 4yp yn Neuadd yr Hafod.

£17.50 yw pris Tanysgrifiad Blwyddyn
Papur Bro Clonc.
Beth am ei brynu fel anrheg?

Cysylltwch â
Mary Davies, Ysgrifenyddes Clonc

ysgrifennydd@clonc.co.uk

Clybiau Ffermwyr Ifanc

C.Ff.I. Ceredigion

Wel dyma ni ar drothwy mis arall! Dyma grynodeb o fis prysur yn hanes C.Ff.I. Ceredigion

C.C.B. C.Ff.I. Cymru

Lleoliad y Cyfarfod Blynnyddol eleni oedd yr Hen Goleg, Aberystwyth, lle ail etholwyd Mr Geraint Lloyd, Lledrod yn Llywydd y Mudiad, etholwyd Alaw Mair Jones, Felinfach yn Gadeirydd y Fforwm Ieuenctid, Rhiannon Davies, Caerwedros yn Is-gadeirydd Rhyngwladol ac Elin Rattray, Trisant yn Ysgrifennydd Cofnodion y Fforwm Ieuenctid. Pob hwyl iddynt am y flwyddyn sydd i ddod.



Daeth tipyn o lwyddiant ychwanegol i Geredigion, wrth i ni ennill Tlws yr Aradr, ar y cyd, gyda Sir Benfro, am y nifer o bwyntiau o fewn y flwyddyn 2017/18. Ynghyd â hyn, daeth tlws Beynon Thomas yn ôl unwaith yn rhagor i Geredigion am y nifer o bwyntiau gan aelodau dan 18oed am y flwyddyn 2017/18. Gorffennwyd y diwrnod yn yr Academi yn 'Dawns y Cadeirydd', lle mynychodd nifer helaeth o aelodau Ceredigion y digwyddiad.

Diwrnod Allan ar y Fferm

Cynhaliwyd dau ddiwrnod llwyddiannus iawn yn Llanerchaeron ar yr 21ain a'r 22ain o Fedi. Gwahoddwyd ysgolion cynradd cylch Aberystwyth i ymuno gyda'r C.Ff.I. ar ddydd Gwener. Cafwyd diwrnod addysgiadol gyda gwahanol arddangosfeydd yn dangos cynnyrch a chodi ymwybyddiaeth diogelwch y fferm. Daeth 650 o aelodau'r cyhoedd drwy'r gatiâu dydd Sadwrn i barhau i weld yr arddangosfeydd ynghyd â'r amryw stondinau.

C.C.B. C.Ff.I. Ceredigion



Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol C.Ff.I. Ceredigion eleni yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch wrth i Mr Euros Davies, Llywydd y Sir, drosglwyddo'r awenau i Mr Milwyn Davies, Trisant ac etholwyd Mr Ifan Davies, Tregaron yn Is-lywydd y Sir. Trosglwyddodd Mererid Jones, Felinfach gadwyn Cadeirydd y Sir i Caryl Haf Jones, Llanddewi Brefi ac etholwyd Eysyllt Ellis Jones, Llangwryfon yn Is-gadeirydd y Sir. Pob hwyl i chi gyd am y flwyddyn sydd i ddod!

Diwrnod Maes

Cynhaliwyd Diwrnod Maes ar y 6ed o Hydref yn Fferm Hafod, Ferwig a chynhaliwyd y gystadleuaeth Barnu Biff nos Fercher 3ydd o Hydref yn Fferm Tŷ-Gwyn, Ferwig. Bu cystadlu brwd drwy gydol y dydd gyda dros 200 o aelodau yn cymryd rhan. Llangwryfon oedd buddugwyr y diwrnod am y 5ed tro yn olynol, Penparc yn cipio'r ail safle a Felinfach yn drydydd. Dyma'r canlyniadau'n llawn;

Unigolyn Gorau dan 14oed Barnu Stoc - 1-Dylan Phillips, Llangwryfon; 2-Guto Miles, Felinfach; 3-Ioan Evans, Pontsian; 4-Kai Jones, Felinfach. Tîm dan 14oed Barnu Stoc - 1-Felinfach; 2-Llangwryfon; 3-Penparc. **Unigolyn Gorau dan 18oed Barnu Stoc** - 1-Elin Davies, Llanwenog; 2-Lynn Morris, Llanddeiniol; 3-Ifan Davies, Llanddeiniol;

4-Huw Jones, Felinfach. Tîm dan 18oed Barnu Stoc 1-Llanwenog; 2-Felinfach; 3-Llangeitho. **Unigolyn Gorau dan 26oed Barnu Stoc** 1-Dyfrig Williams, Llangwryfon; 2-Eiry Williams, Llangwryfon; 3-Rhiannon Davies, Caerwedros; 4-Cennydd Jones, Pontsian. Tîm dan 26oed Barnu Stoc 1-Llangwryfon; 2-Penparc; 3-Pontsian. **Ffensio Hŷn**-1-Llangwryfon; 2-Lledrod. **Ffensio Iau** - 1-Penparc; 2-Llanddeiniol; 3-Pontsian. **Ciwb** - 1-Lledrod; 2-Tregaron; 3-Llangeitho. **Fferm Ffactor** -1-Bedwyr Siencyn a William Jones, Talybont; 2-Jano Evans ac Osian Davies, Caerwedros; 3-Dylan Phillips a Meriel Evans Llangwryfon. **ATV**-1-Huw Evans a Dion Davies, Llangwryfon; 2-Iwan Jenkins ac Elin Hope, Felinfach; 3-Tomos Jones a Gwion Morgan Penparc. **Tractor a Loader**-1-Osian Rees Penparc; 2-Iestyn Davies Talybont; 3-Glyn Hughes Mydroilyn. **Addurno Coeden Nadolig** - Rhiannon Jones a Megan Herberts, Tregaron; 2-Beca Lewis a Jane Davies, Llangwryfon; 3-Teleri Evans a Lleucu Rees, Llanwenog.

Clwb 200

Awst - 1af - C.Ff.I. Llangeitho. 2il - Bethan Roberts, Ffynnon Las, Ffosyffin. 3ydd - Eifion ac Elenid Jones, Talar Wen, Cwmsychbant.

Medi - 1af - Lora ac Eurig Davies, Dyffryn, Aberporth. 2il - Gwenan Davies, Cwmcoedog, Mydroilyn. 3ydd - Huw ac Angharad Williams, Ael y Bryn, Llanon.

Hydref - 1af - Heather Price, Esgaireinion, Llanybydder. 2il - Iwan Jenkins, Glynmeherin, Gorsgoch. 3ydd - Gwynne Davies, Godre'r Garth, Llanddewi Brefi.

Dyddiadau i'ch Dyddiadur

Tachwedd - 1af a 3ydd - Eisteddfod y Sir, Pafiliwn Pontrhydfendigaid.

14eg - Hyfforddiant Barnu Carcas. 17 - Eisteddfod C.Ff.I. Cymru, Canolfan y Celfyddydau Memo, Y Barri. 21 - Pwyllgorau'r Sir. 23 - Chwaraeon Dan Do, Llanddewi Brefi. **Rhagfyr** - 2il - Siarad Cyhoeddus Saesneg. 28 - Dawns y Frenhines a'r Ffermwr Ifanc.

Eisteddfod C.Ff.I Sir Gâr 2018

Eleni eto, bu cystadlu brwd yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin yn Eisteddfod Sir Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr ar nos Wener y 12fed, nos Wener 19eg a Dydd Sadwrn 20fed o Hydref. Ar ôl dwy noson a diwrnod o adloniant o safon uchel iawn - C.Ff.I Penybont gipiodd darian yr Eisteddfod am y pumed tro yn olynol. Llongyfarchiadau i'r clwb a hefyd i C.Ff.I Llanllwni am ddod yn ail ac yn gyntaf yn yr adran waith cartref gan dderbyn tarian Elonwy Phillips.

Cafodd y beirniaid waith caled iawn gyda'r holl gystadlu ac mae ein diolch yn fawr iddynt am eu gwasanaeth. Bu Helen Wyn yn beirniadu ein hadran gerdd, Mari Grug yn beirniadu'r llefaru, Geraint ac Anna Lloyd yr Adran Ysgafn ac Anna hefyd yn beirniadu'r ddawns gyfoes, Myfanwy Rees yn y Dawnsio Gwerin a Dr Hywel Griffiths yn yr Adran Gwaith Cartref.

Ein llywyddion ar gyfer yr Eisteddfod eleni oedd Meryl James, Pengawse ar y nos Wener gyntaf, Dyfrig ac Eileen Davies, Gwndwn ar yr ail nos Wener a Mansel Charles, Cadeirydd y Cyngor Sir ar y Dydd Sadwrn. Diolch yn fawr iddynt am eu geiriau pwrpasol o'r llwyfan ac am eu rhoddion hael tuag at gyllid y Mudiad yn Sir Gâr.

Buon ni'n ffodus iawn i gael Elin Rees fel cyfeilydd yn yr Eisteddfod eleni eto. Diolch iddi hi am ei gwasanaeth a diolch hefyd i'r rhai gyfeiliodd i'r aelodau. Diolch i arweinyddion yr Eisteddfod - Hefin Evans, Dylan Bowen, Carys Thomas, Marek Williams, Caryl Jones, Arwel Jones ac Iestyn Owen. Diolch i Simon Martin am fod yng ngofal y Cymorth Cyntaf ac i bawb oedd yn gweithio tu cefn i'r llwyfan ac wrth y drws gyda'r Swyddogion a ffrindiau eraill y Mudiad.

Mae ein diolch yn fawr i'r cofiaduron oedd wrthi'n gofalu am y sgoriau. Diolch i Jane Morgan a Marian Thomas ac i Llinos Jones a oedd hefyd yng ngofal y tystysgrifau. Diolch yn fawr i Deian Thomas a Dylan Bowen oedd yng ngofal y Sain a'r Golau.

Aeth y Goron eleni eto yn ôl i C.Ff.I Llanllwni ond y flwyddyn yma rydym yn llongyfarch Sioned Bowen a gipiodd y Goron a oedd yn rhoddedig gan ein Cadeirydd Sir Marek Williams. Crëwyd y Goron gan Luned Henry sy'n gyn-aelod o C.Ff.I Llangadog. Llongyfarchiadau hefyd i Carwen Richards, C.Ff.I Dyffryn Cothi am ennill y gadair ddwy flynedd yn olynol. Roedd y gadair yn rhoddedig gan Marek Williams hefyd. Ruth Morgan, Cadeirydd C.Ff.I Llangadog a'i thad John Morgan greodd y Gadair. Diolch i bawb a gymrodd ran yn y Seremoni yn enwedig i Arwyn Davies, Llywydd y Sir am redeg y seremoni yn hwylus iawn eleni eto.

Diolch i C.Ff.I Penybont am stiwardio dros yr Eisteddfod gyfan a diolch i Addysg Seren, All Pump Services a HB Enoch & Owen am noddi'r digwyddiad.

Dyma ganlyniadau'r Eisteddfod:

Llwyfan

Sgets 1. C.Ff.I Capel-Arthne; 2. C.Ff.I Llanllwni; 3. C.Ff.I Dyffryn Cothi.

Clybiau Ffermwyr Ifanc

Unawd Offerynnol 1. Daniel O'Callaghan, C.Ff.I Penybont; 2. Dafydd Owen, C.Ff.I Llanddarog; 3. Alpha Evans, C.Ff.I Cwmann. **Unawd Alaw Werin** 1. Elen Bowen, C.Ff.I Capel Iwan; 2. Elin Fflur Jones, C.Ff.I Penybont; 3. Elan Jones, C.Ff.I Cwmann. **Stori a Sain** 1. Carwyn Jones a Mared Evans, C.Ff.I Penybont; 2. Nia Owens a Dafydd Davies, Cynwyl Elfed & Ioan Harries a Sion Davies, C.Ff.I Llannon. **Ensemble Offerynnol** 1. C.Ff.I Llanddarog; 2. C.Ff.I Capel Iwan; 3. C.Ff.I Dyffryn Tywi. **Canu Emyn** 1. Elen Bowen, C.Ff.I Capel Iwan; 2. Owain Rowlands, C.Ff.I Llanfynydd; 3. Sioned Howells, C.Ff.I Llanllwni. **Dawnsio Gwerin** 1. C.Ff.I Penybont; 2. C.Ff.I Capel Iwan; 3. C.Ff.I Cynwyl Elfed. **Côr Cymysg** 1. C.Ff.I Penybont; 2. C.Ff.I Llanddarog; 3. C.Ff.I Dyffryn Cothi / Llangadog & C.Ff.I Llanfynydd. **Unawd 16 neu Iau** 1. Bethan Evans, C.Ff.I Llanymddyfri; 2. Elan Jones, C.Ff.I Cwmann; 3. Fflur Davies, C.Ff.I Llandeilo. **Llefaru 18 neu Iau** 1. Elan Jones, C.Ff.I Cwmann; 2. Heledd Jones, C.Ff.I Dyffryn Tywi; 3. Daniel O'Callaghan, C.Ff.I Penybont. **Unawd 21 neu Iau** 1. Owain Rowlands, C.Ff.I Llanfynydd; 2. Lois Thomas, C.Ff.I Llanllwni; 3. Hannah Richards, C.Ff.I Penybont. **Llefaru 26 neu Iau** 1. Alys John, C.Ff.I Hendy-Gwyn; 2. Ffion Medi Rees, C.Ff.I Llanfynydd. **Unawd 26 neu Iau** 1. Carwen George, C.Ff.I Dyffryn Cothi. **Dawns** 1. C.Ff.I Llannon; 2. C.Ff.I Cwmann; 3. C.Ff.I Dyffryn Cothi & C.Ff.I Dyffryn Tywi. **Parti Llefaru** 1. C.Ff.I Llanllwni; 2. C.Ff.I Dyffryn Tywi; 3. C.Ff.I Penybont. **Meimio i Gerddoriaeth** - 1. C.Ff.I Capel Iwan; 2. C.Ff.I Llanymddyfri; 3. C.Ff.I Llanllwni. **Deuawd** 1. Elen Bowen a Mari Phillips, C.Ff.I Capel Iwan; 2. Mari a Cadi James, C.Ff.I Llangadog; 3. Fflur a Haf Davies, C.Ff.I Llandeilo. **'Stand Up'** 1. Deian Thomas, C.Ff.I Dyffryn Cothi; 2. Llew Pryce, C.Ff.I Penybont; 3. Owain Davies, C.Ff.I Llanllwni. **Ensemble Lleisiol** 1. C.Ff.I Capel Iwan; 2. C.Ff.I Llangadog; 3. C.Ff.I Llanddarog. **Unawd Sioe Gerdd neu Ffilm** 1. Owain Rowlands, C.Ff.I Llanfynydd; 2. Elin Fflur Jones, C.Ff.I Penybont; 3. Bethan Evans, C.Ff.I Llanymddyfri. **Deuawd neu Driawd Doniol 26 neu Iau** 1. Carwyn Jones, Jac Davies a Tomos Jameson, C.Ff.I Penybont; 2. Ifor Jones, Hefin Jones, Siriol Howells, C.Ff.I Llanllwni; 3. Eirwyn Richards a Deian Thomas, C.Ff.I Dyffryn Cothi. **Parti Unsain 26 neu Iau** 1. C.Ff.I Penybont Bechgyn; 2. C.Ff.I Penybont Merched; 3. C.Ff.I Llangadog.

Gwaith Cartref

Rhyddiaith 1. Sioned Bowen, C.Ff.I Llanllwni; 2. Mari Phillips, C.Ff.I Capel Iwan; 3. Sioned Howells, C.Ff.I Llanllwni. **Cerdd** - 1. Carwen Richards, C.Ff.I Dyffryn Cothi; 2. Luned Jones, C.Ff.I Llanllwni; 3. Daniel O'Callaghan, C.Ff.I Penybont & Ceri Davies, C.Ff.I Dyffryn Cothi. **Cystadleuaeth i Aelodau 26 neu Iau** 1. Mared Evans, C.Ff.I Penybont; 2. Ruth Morgan, C.Ff.I Llangadog; 3. Sioned Howells, C.Ff.I Llanllwni. **Cystadleuaeth i Aelodau 21 neu Iau** - 1. Non Roberts, C.Ff.I Llangadog; 2. Ceri Davies, C.Ff.I Dyffryn Cothi; 3. Ella Solloway, C.Ff.I San Pedr. **Cystadleuaeth i Aelodau 16 neu Iau** 1. Ceris Howells, C.Ff.I Llanllwni; 2. Lewis Thomas, C.Ff.I Llanllwni; 3. Maia Morris, C.Ff.I San Pedr. **Brawddeg 26 neu Iau** 1. Mared Phillips, C.Ff.I Llanllwni; 2. Cao Pryce, C.Ff.I Penybont; 3. Ifan Thomas, C.Ff.I Llanllwni & Siriol Howells, C.Ff.I Llanllwni. **Ffotograffiaeth** 1. Rhiannon Jones, C.Ff.I Dyffryn Tywi; 2. Rhian Hughes, C.Ff.I Llanymddyfri & Gruffydd Jones, C.Ff.I Llanllwni. **Limrig** - 1. Siriol Howells, C.Ff.I Llanllwni; 2. Lynwen Mathias, C.Ff.I Dyffryn Cothi & Hannah Peach, C.Ff.I Dyffryn Tywi. **Celf** 1. Siriol Richards, C.Ff.I Llandeilo; 2. Lowri Jones, C.Ff.I Dyffryn Tywi; 3. Carys Morgan, C.Ff.I Llanfynydd. **Cyfansoddi Cân** 1. Hannah Richards, C.Ff.I Penybont; 2. Daniel O'Callaghan, C.Ff.I Penybont; 3. Mared Phillips, C.Ff.I Llanllwni & Lora Phillips, C.Ff.I San Ishmaels. **Cywaith Clwb** 1. C.Ff.I Llanymddyfri; 2. Gwenno Aled, C.Ff.I Llandeilo & C.Ff.I Penybont.

Llambod



Ennill Cadair

Llongyfarchiadau mawr i Delyth Morgans Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd ar ennill Cadair yn Eisteddfod Pumsaint yn ystod penwythnos olaf mis Hydref.

Mae Delyth yn un o olygyddion Papur Bro Clonc.

Eisteddfod 2020

GALW AR BOBL LEOL I GEFNOGI EISTEDDFOD 2020

Yn 2020 bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld â Cheredigion am y tro cyntaf ers 1992 a bydd croeso mawr yn ei disgwyl. Yr oedd y brwdfrydedd a welwyd gan bron i 400 yn y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd Fis Medi yn hynod gadarnhaol, a phobl o bob oed yn ei chefnogi'n gryf.

Ers hynny, sefydlwyd y pwyllgorau pwnc i gyd, ac y mae Pwyllgor y Gronfa Leol yn y broses o sefydlu pwyllgorau apêl ym mhob rhan o'r Sir i godi arian at yr apêl. Bydd y rheini yn gyfrifol am drefnu myrdd o weithgareddau cymunedol i gyrraedd y nod o £330,000 a osodwyd yn darged.

Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith yw Elin Jones, ac mae hi eisoes yn edrych ymlaen, ac yn awyddus i'r paratodau gynnwys pobl o bob rhan o'r Sir, yn Eisteddfodwyr selog a phobl sydd erioed wedi ymwneud gyda'r wyl o'r blaen. Bydd swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn codi ymwybyddiaeth am yr Eisteddfod dros y misoedd nesaf, ynghyd â chodi arian ar gyfer y Gronfa Leol.

Wrth lansio'r ymgyrch, dywedodd, "Mae Apêl Eisteddfod 2020 eisoes wedi dechrau ar gyfer gwyl fydd yn adeiladau ar lwyddiannau diweddar yr Eisteddfod. Mae'n braf gweld strydoedd ein trefi yn byrlu gyda phobl frwdfrydig, ymroddedig sy'n llawn syniadau am y math o Eisteddfod yr hoffent ei weld yma yng Ngheredigion."

"Yn ogystal â mynychu'r amryw weithgareddau codi arian fydd yn digwydd ar draws y Sir, rydym yn annog unigolion i wneud ymrwymiad personol i'r apêl drwy gyfrannu arian yn fisol fel rhan o'r ymgyrch Cyfeillion Eisteddfod 20-20 (ugain punt am ugain mis i gefnogi Eisteddfod 2020). Drwy gyfrannu swm rheolaidd, gall unigolion wneud gwahaniaeth mawr i'r targed terfynol."

Mae gwybodaeth am sut i gyfrannu a chefnogi ar gael ar wefan yr Eisteddfod, sydd yn cynnwys cynnig gwobr neu gyfraniad unigol, bychan neu fawr, unrhyw bryd rhwng nawr a'r Eisteddfod yn 2020. Mae croeso hefyd i chi gysylltu â'r Swyddfa ar 0845 40 90 400 neu anfon e-bost gwyb@eisteddfod.org.uk.

"Yn bendant, bydd Eisteddfod 2020 yn gyfle gwych i ddod â phobl at ei gilydd yn ein cymunedau, beth bynnag eu cysylltiad â'r Gymraeg. Dyma gyfle unigryw a chyffrous i ddangos pwysigrwydd y Gymraeg yn y Sir a thu hwnt, ac rydym yn barod ac yn edrych ymlaen at yr her a'r gwaith dros y ddwy flynedd nesaf."

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol 2020 ar gyrion Tref Tregaron o 1-8 Awst. Am ragor o wybodaeth ewch ar-lein www.eisteddfod.cymru.

Pwyllgor Sefydlu Apêl
Plwyfi Llanwenog a Llanwnnen
Nos Fawrth, Tachwedd 20fed
am 7.30y.h.
yn Ysgol Dyffryn Cleldyn, Drefach.
Croeso cynnes i bawb.

Pwyllgor Sefydlu Apêl
Tref Llanbedr Pont Steffan
Nos Wener, Tachwedd 23ain
am 7.00y.h.
yng Nghlwb Rygbi Llambod.
Croeso cynnes i bawb.



Neuadd Mileniwm Cellan a Neuadd yr Hafod Gorsgoch yw'r llefydd am ffilmiau yn ardal Papur Bro Clonc a dyma Gary Slaymaker i sôn am y ffilmiau a ddangosir yng Nghellan yn yr wythnosau nesaf:

9fed Tachwedd - The Happy Prince

Hanes dyddie' ola' Oscar Wilde, gyda'r awdur/dramodydd bellach yn alltud ar gyfandir Ewrop. Ma' Wilde yn edrych 'nôl dros ei fywyd, tra'n byw mewn tloidi erchyll yn Ffrainc. Llafur cariad gan yr actor Rupert Everett yw hon – mae'n serennu, yn sgriptio a chyfarwyddo'r stori yma, a 'where teg, mae'n neud jobyn rhagorol o'r tair swydd. Gyda chymorth cryf gan Colin Firth, Colin Morgan ac Emma Watson, ma' hon yn ffilm sy'n gwyro o'r digri i'r torcalonnus yn esmwyth ac effeithiol iawn. Ma' Everett wedi chwarae Wilde o'r blaen, ac wedi cyfadde' bod ganddo ddiddordeb sy'n ochri ar obsesiwn gyda'r gŵr. 'Fallai mai dyma pam bod hon gystal ffilm ac Everett yn cynnig perfformiad mor ddisglair.

23ain Tachwedd - Swimming With Men

Y Cymro, Rob Brydon, sy'n serennu fel y cyfrifydd diflas sy'n mynd drwy greisis canol-oed ac yn ffeindio eli i'r enaid drwy ymuno â chriw o ddynion canol oed tebyg sydd wedi ffurfio tîm synchronised swimming amatur. A 'na chi'r stori i gyd fan'na. Mae'n olreit. Mae'n perthyn i'r llinach 'na o gomedïau Prydeinig sy'n cynnwys The Full Monty, Brassed Off a Little Voice, er enghraifft. Ma hyd yn oed sawl aelod o gast Swimming With Men wedi ymddangos mewn ffilmie tebyg dros y blynyddoedd – Jim Carter, Jane Horrocks, Daniel Mays a Nathaniel Parker – pob un yn wynebau cyfarwydd ar y sgrin fach a'r sgrin fawr. Yn amlwg, Full Monty yw'r brif ysbrydoliaeth fan hyn, a r'ych chi'n cael y teimlad cryf bod tîm cynhyrchu Swimming with Men wedi begian am y fath o lwyddiant welodd y stripwyr o Sheffield; ond yn anffodus, ma'r stori'n rhy wan fan hyn, a'r cymeriadau braidd yn fflat hefyd. Dyw hi ddim yn ffilm wael, o bell ffordd, ond eto dyw hi jyst ddim digon arbennig i sefyll allan ynghanol y rhestr o gomedïau Prydeinig da sydd wedi ca'l eu rhyddhau dros y ddegawd diwetha'.

7fed Rhagfyr - Mamma Mia: Here We Go Again

Peidwch disgwyl adolygiad teg fan hyn, achos nes i gasáu'r Mamma Mia cynta'... 'nath hi 'neud fi mor grac, 'nes i gwmpo allan o gariad gyda cherddoriaeth Abba. Deg mlynedd yn ddiweddarach, pan o'n i'n dachre joio gwranddo ar Super Trouper a Dancing Queen unwaith eto, ma' hon yn glanio...a tro hyn dyw e ddim yn ddigon eu bod nhw wedi lladd Abba i fi, unwaith eto. Ma' nhw wedi claddu 'nghariad i tuag at Cher nawr hefyd. Gerddes i mas ar ôl diodde' awr o hon, wedyn weda i ddim mwy. Ma' rhai adolygwyr wedi ei chanmol hi i'r cymylau, ond bydde well 'da fi ddiode' shingles nag 'istedd drwy hon 'to. Nadolig Llawen, gyda llaw.

Mae drysau Neuadd Mileniwm Cellan yn agor am 7.15yh a'r ffilm yn dechrau am 7.45yh. Mynediad drwy rodd.

O'r Cyngorau Bro



Cyngor Cymuned Llanybydder

Llongyfarchwyd Mavis Beynon, y Clerc am gyrraedd 30 mlwydd o wasanaeth i Gyngor Cymuned Llanybydder. Cychwynnodd ym mis Medi 1988, ac mae wedi bod mewn pob cyfarfod ers y dechrau.

Ffair Nadolig Pontsian

Neuadd Pontsian

Dydd Sul, 18fed o Dachwedd rhwng 10:30yb a 3yh.

Dros 30 o stondinau gyda chrefftau amrywiol a chynnyrch lleol.

Gwobrau raffl gwyh wedi'u rhoi gan ein stondinwyr.

Elw'r dydd yn mynd tuag at Elusennau TIR DEWI ac AREN CYMRU.

Mynediad-£3 i oedolion a £1 i blant uwchradd, pris yn cynnwys diod dwym a mins pei.

Dewch yn llw.

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf cyfres y gaeaf ym mis Hydref, a hynny yn Nghapel y Cwm, Cwmsychbant. Daeth 16 o aelodau ynghyd, gyda Dilwen George yn y gadair. Dymunodd wellhad buan i bawb a fu'n anhwylyd yn ddiweddar, gan anfon cofion arbennig at Dai Davies, (Llanfon gynt), a oedd yn Ysbyty Treforus.

Prif weithgaredd y prynhawn oedd cynnal y Cyfarfod Blynyddol. Dymuniad Dilwen George oedd camu o'r Gadair, ac roedd Yvonne wedi rhoi rhybudd y llynedd y byddai'n gorffen fel ysgrifennydd. Etholwyd y Swyddogion Canlynol: Cadeirydd – Mary Thomas, Ffosffald; Is-gadeirydd, Yvonne Davies; Trysorydd – Brenda Jones, Is-drysorydd, Eifion Davies; Ysgrifennydd Siaradwyr – Jane Jones, Pwlllybilwg; Ysgrifennydd cofnodion – Eirwen Evans, Gorsgoch; Ysgrifennydd cardiau – Sulwen Lloyd.

Camodd y swyddogion newydd i'w lle, ac aed ati i drefnu rhaglen y gaeaf. Bydd y cyfarfod nesaf yng Nghapel Brynteg, dydd Mercher, Tachwedd 14eg am 1.30 yp. Y siaradwraig wadd fydd Delyth Jenkins, Ffosyffin, (Talgrwn gynt).



Eisteddfodau

Llongyfarchiadau i Elliw Grug Davies, Dolydd Dŵr ar ei llwyddiant mewn tair Eisteddfod leol yn ddiweddar: Felinfach 1af am adrodd ac 2il am ganu dan 6; Llanarth 2il am ganu a 3ydd am adrodd dan 6 a Pumsaint 2il am adrodd a 3ydd am ganu dan 6. Da iawn ti Elliw. Dal ati.



**ARWYN VOBÉ
ACCOUNTANCY LTD.**

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

❖ Cyfrifon Blynyddol ac Interim

❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau

❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW

❖ Cyflogau a CIS

❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

**Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu**

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

Drefach a Llanwenog

Ysgol Dyffryn Cledlyn

Pleser oedd gwahodd rhieni atom i'r ysgol unwaith eto ar gyfer ein Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol. Roedd y neuadd yn orlawn a chafwyd gwasanaeth hyfryd. Thema'r prynhawn oedd Yr Amgylchedd. Bu'r disgyblion yn sôn am y Cread, sut i ofalu am ein Byd, am blannu a thyfu coed yn ogystal â gwylio ffilm gafodd ei chreu gan y plant i bwysleisio pwysigrwydd Ail Gylchu. Diolch i'r rhieni ac aelodau o'r gymuned am gefnogi.

Mae clwb garddio'r ysgol yn mynd o nerth i nerth dan arweiniad Mr Ebbsworth. Mae'r aelodau yn cwrdd yn wythnosol i gymenu, a thacloso amgylchedd yr ysgol ac yn paratoi i blannu rhai bylbiau ac ati ar gyfer y gwanwyn.

Aeth plant blynyddoedd 3 a 4 ar ymweliad i goedwig 'Long Wood', lle cafwyd cyfle i weld a cherdded y goedwig fel sbardun ar gyfer nifer o weithgareddau diddorol yn ôl yn y dosbarth.

Bu Nia Williams a Sara Davies, ein Llysgenhadon Chwaraeon, yn ysgol Bro Pedr am ddiwrnod o hyfforddiant ar gyfer cynnal sesiynau gyda'r disgyblion. Maent eisoes wedi dechrau ac yn cael hwyl yn trefnu gweithgareddau amrywiol.

Roeddem yn ffodus iawn i gael cwmni Mrs Tina Potter sef Pennaeth Digwyddiadau'r Asiantaeth a Safonau Bwyd dros Brydain. Bu'n trin a thrafod alergeddau bwyd ac yn trosglwyddo negeseuon pwysig iawn. Bu'r plant yn dysgu sut mae dod o hyd i wybodaeth am alergeddau ar becynnau bwyd a hefyd y peryglon sydd yn gysylltiedig gyda bwyta rhai bwydydd os oes alergedd gennych. Codwyd ymwybyddiaeth y disgyblion ynglŷn â'r pwnc ac roedd y sesiwn yn ddiddorol iawn. Diolch yn fawr iawn i Mrs Potter am ei mewnbyn a'i harbenigedd.

Bu aelodau o Gyngor yr ysgol yn weithgar iawn yn trefnu gweithgareddau ar gyfer diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd yr Urdd. Cafwyd ymweliad gan 'Mr Urdd' ei hun, a daeth y diwrnod i ben trwy ddawnsio mewn disgo Cymreig bywiog o dan ofal ein D J newydd sef Sion Jones o flwyddyn 5. Diolch yn fawr i'r cyngor am drefnu diwrnod gwych lle codwyd swm o £132 ar gyfer yr Urdd.

Hyfryd oedd croesawu Mrs Delor James i gydweithio gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at gwmni Mr Eryl Jones a Mr Heulyn Roderick fydd yn cynnig eu harbenigedd fel rhan o gynllun dan nawdd Erw. Bu Delor yn datblygu sgiliau ieithyddol y plant trwy ysgrifennu rhan o stori fydd yn cael ei chwblhau gan ysgolion Bro Pedr, Y Dderi, ac Ysgolion Llanybydder a Llanllwni. Buom yn cysylltu gyda'n gilydd trwy gyfrwng SKYPE. Elfen gyffrous arall o gyfathrebu sydd yn gwneud cydweithio a phontio gydag ysgolion cyfagos yn llawer haws. Diolch enfawr i Delor. Roedd y plant wrth eu bodd.

Ymwelydd arall i'r ysgol oedd Mrs Nans Davies. Buodd yn nosbarth 5 a 6 yn dilyn i fyny ar brosiect a wnaeth y plant cyn yr Haf ar Fferm Penlan Noeth. Roeddent wedi bod yn holi cwestiynau i'r perchennog Mr Dai Rees a buodd yntau yn garedig yn ymateb trwy ateb y cwestiynau i gyd. Cafwyd sesiwn ddiddorol iawn.

Bu disgyblion hynaf yr ysgol yn Ysgol Bro Pedr ar gyfer noson o bontio a pharatoi ar gyfer trosglwyddo i'r Uwchradd. Buont yn gwneud gweithgareddau amrywiol a chael cyfle i ymweld â'r gwahanol adrannau.

Mwynhaodd plant blwyddyn 5 a 6 brynhawn o rygbi Tag yn Llanbed yn ddiweddar lle cafwyd cyfle i ddatblygu sgiliau mewn awyrgylch gyfeillgar a hwylus. Cafwyd prynhawn braf.

C.Ff.I. Llanwenog

Ar ôl mis o joio a thrampo, dyma ddechrau ar y cystadlu! Bu aelodau'r clwb yn brysur yn paratoi ar gyfer y diwrnod maes a gynhaliwyd ar fferm Hafod, Ferwig ar y 6ed o Hydref. Dyma rai canlyniadau'r dydd:- Barnu Stoc dan 18, Ben Lewis, Elin Davies, Osian Davies ac Owain Jones yn gyntaf fel tîm ac Elin yn gyntaf fel unigolyn. Roedd Lleucu a Teleri yn 3ydd yn addurno'r goeden Nadolig ac Elin yn fuddugol yn y gystadleuaeth paratoi'r cyw iâr. Daeth y clwb yn 6ed ar ddiwedd y dydd! Llongyfarchiadau i chi gyd! Diolch i bawb a fu'n hyfforddi'r aelodau.

Aethom draw i ganolfan hamdden Llambled i ddysgu sut i amddiffyn ein hunain drwy ddefnyddio dull Ju-jitsu. Noson llawn sbri yn dysgu sgil newydd.

Braf oedd cael cynnal ein Cwrdd Diolchgarwch eleni yng nghapel Brynteg. Roedd yn hyfryd cael araith bwrpasol gan gyn aelod o'r clwb, sef Helen Phillips gynt o Faes y Garn, Gorsgoch, yn ein hannog ni i wneud y gorau o'n hamser. Codwyd £130 i gronfa Mari Leisa Jen, elusen sy'n codi ymwybyddiaeth am fabanod sy'n cael eu geni'n cysgu. Maent yn rhoi help hefyd i'r teuluoedd yn y cyfnodau anodd hyn. Cyfrannodd aelodau'r clwb ffrwythau a llysiau a rhoddwyd nhw i gartref Maes y Felin, Drefach.

Rydym wrthi'n brysur ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer yr eisteddfod a gynhelir ym mhafiliwn Pontrhydfendigaid ar y 1af a'r 3ydd o Dachwedd. Dewch i'n cefnogi.

Os oes gennych ddiddordeb i ymuno â'r clwb neu am ragor o wybodaeth, cewch i'r wefan: www.cffillanwenog.org.uk



Seiclo 400 milltir

Bu Rhian, merch Eifion ac Yvonne Afallon, Drefach allan yn yr Amerig ym mis Medi, gyda chriw o bobl yn seiclo 600km (neu 400 milltir) o San Francisco i Los Angeles i godi arian i Ysbyty Felindre, Caerdydd. Cafodd Rhian driniaeth yno dros 10 mlynedd yn ôl ac roedd am wneud rhywbeth i godi arian iddynt. Hyd yn hyn mae wedi codi dros £9,600, - a chydä 'gift aid' mae'r cyfanswm bron iawn yn £11,000. Hoffai Rhian ddiolch i bawb sydd wedi bod mor hael yn noddï'r elusen yma. Codwyd dros £600,000 i gyd, a bydd yr arian yma yn mynd i sicrhau y bydd yna nyrs arbenigol bersonol i gynnal pob claf drwy ei driniaeth / thriniaeth ganer yn Felindre.

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Huw a Nans Davies, Gweithdy, Brynteg ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto pan anwyd mab bach, Sianco Llewelyn, i Steffan a Lowri yng Nghaerfyrddin. Brawd bach i Beca.

Wyres fach

Hefyd cafodd Caroline a Geraint Davies, Llys-deri wyres fach newydd pan anwyd merch fach Greta Mair i Gwenan a Carwyn yn Llambled a chwaer fach i Celt.

Dymuniadau gorau i bawb.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu'r diweddar Stanley Davies, Lantern Lodge, Rhuddlan a fu farw ar ddechrau'r mis. Preifat fu ei angladd yn Eglwys St Vitalis, Dihewyd.

Diolch

Dymuna Gareth a Mary, Maesglas ddiolch o waelod calon am y pentwr cardiau a'r cyfarchion yn ogystal â'r anrhegion a'r rhoddion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Ruddem ar ddiwedd mis Medi. Gwerthfawrogi'r cyfan oll.

Dathlodd Mair Hatcher, Abernant ben-blwydd arbennig yn hanner cant nôl ym mis Gorffennaf ac yn lle anrhegion derbyniodd gyfraniadau tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. Yn ddiweddar, trosglwyddodd Mair siec am £1,000 i Ros Jones, Llambled. Dymuna Mair ddiolch yn fawr i'w theulu a'i ffrindiau am y rhoddion hael tuag at yr elusen yma.

Eglwys Santes Gwenog

Nos Lun 1af o Hydref cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yr Eglwys. Cafwyd neges dymhorol gan ein hofferiad gwadd y Canon Philip Wyn Davies gyda Mrs Pauline Roberts-Jones wrth yr organ.

Yn dilyn y Gwasanaeth, aeth yr addolwyr i'r Eglwys Fach i fwynhau swper y Cynhaeaf – gwledd o gigoedd, salad, pwdinau, bara cartref a gwin blodau'r ysgawen. Dim rhyfedd bod pob sedd yn llawn! Diolch i bawb am eu haelioni yn paratoi'r bwyd ac i'r gwragedd am addurno'r Eglwys mor brydferth.

Cofiwch ei bod yn amser i ail-ymuno â'r Clwb 100 - £10 am flwyddyn gyda gwobrau bob mis.

Ar Brynhawn Sul, Tachwedd 11eg cynhelir gwasanaeth 'Cofio'r Canmlwyddiant' yn yr Eglwys am 2 o'r gloch gyda phaned i ddilyn. Trefnir gan Gyngor Cymuned Llanwenog ac mae croeso i bawb.

Llongyfarchiadau i Pauline Roberts-Jones, Tynporth ar enedigaeth ŵyr bach yng Nghaerdydd, Edi Tomos.

Hefyd i Geraint a Caroline, Llysderi, ar enedigaeth wyres - Greta Mair, merch fach i Gwennan a Carwyn, chwaer i Celt, a gor-wyres i Mrs Doreen Evans Maesyfelin.



Llanbedr Pont Steffan

Eisteddfod Genedlaethol Tregaron, 2020

Mae Cylch Cinio Llanbedr wedi penderfynu gwneud cyfraniad ariannol i wobrau Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion yn Nhregaron yn 2020. Rhoddir £300 i enillydd cystadleuaeth Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn a rhoddir y wobr gyntaf o £150 yng nghystadleuaeth yr unawd tenor.

Ennyd Gobaith

Cynhaliwyd Oedfa Eciwmenaid Ennyd Gobaith yn eglwys San Pedr ar brynhawn Sul 21 Hydref ar gyfer unrhyw un sydd wedi cael ei effeithio gan gancr. Croesawyd pawb yn gynnes gan y Parchedig Ddr. Emma Whittick Caplan Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Cafwyd rhagarweiniad gan Jane Holmes, un sydd wedi derbyn llawdriniaeth cancr ychydig flynyddoedd yn ôl a hithau ond yn 43 oed. Pwysleisiodd Jane mai'r gair pwysig ac allweddol pan yn dioddef neu yn trafod cancr yw Gobaith ac mae hi yn dyst i hynny. Hefyd darllenodd neges oddi wrth yr Athro Donnelly, sefydlydd elusen Ennyd Gobaith flynyddoedd yn ôl erbyn hyn, yn diolch i bawb yn Llanbedr am eu cefnogaeth ac am drefnu'r Oedfa.

Cymerwyd rhan gan aelodau eglwysy'r dref a chyfoethogwyd yr oedfa yn fawr gan gyfraniadau hyfryd Côr Ysgol Bro Pedr dan arweiniad Llinos a Sandra yn cyfeilio, datganiad clodwiw Georgina ar y delyn ac unawd swynol ei mab Trystan.

Traddodwyd anerchiad pwrpasol a diddorol gan yr Hybarch Ddr Will Strange Archddiacon Ceredigion.

Diolchodd Y Parch Ddr Emma Whittick i'r rhai oedd wedi cymryd rhan, i Debra Davies am ei gwasanaeth wrth yr organ ac i bawb am eu cefnogaeth. Talodd ei gwerthfawrogiad hefyd i eglwys San Pedr am bob cydweithrediad gyda'r trefniadau ac i'r chwirydd am baratoi paned ynghyd ag aelodau'r eglwys am gyfrannu cacennau a bisgedi. Mae dyled y pwyllgor yn fawr hefyd i Steven Holmes am ei drefniadau trylwyr heb anghofio cyfraniad ei briod Jane.

Cafwyd cyfle wedyn i gymdeithasu wrth fwynhau lluniaeth ysgafn. Roedd pawb a oedd yn bresennol wedi derbyn bendith yn yr Oedfa wrth gofio am bawb sydd wedi dioddef effeithiau cancr.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Aelwyd yr Urdd

Daeth criw o bobl ifanc ynghyd nos Fawrth 2 Hydref i gyfarfod cyntaf y tymor. Paratowyd rhaglen amrywiol ar gyfer yr wythnosau nesaf ac etholwyd y swyddogion canlynol, sef Cadeirydd Martha, Is-gadeirydd Gruffydd a Catrin a Hanna yn ysgrifenyddion. Cytunodd Janet i barhau fel arweinydd tra bod Geinor Medi yn cael seibiant yn dilyn genedigaeth ei merch fach Siwan Grug. Treuliwyd gweddill y noson yn cymryd rhan mewn gemau llawn cyffro yng ngofal Lleucu Aeron. Cafwyd llawer o hwyl ac ambell un yn gystadleuol iawn heb enwi neb!!

Diolchwyd i Lleucu am noson ddifyr gan Martha ac i Janet a Rosaline am gadw trefn!! Erbyn i Clonc ddod allan byddwn wedi mwynhau hwyl Calangaeaf gyda Llinos ac Elan. Bydd yr aelodau yn cymryd rhan yn oedfa Sul yr Urdd yn Noddfa nos Sul 27 Tachwedd am 5 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Gŵyl Dewi

Yn dilyn ein dechreuad llwyddiannus eleni ar adeg Gŵyl Dewi, cynhelir cyfarfod o'r Pwyllgor am 7.30 Nos Fawrth, Tachwedd 20fed yn Neuadd Fictoria er mwyn trefnu Gorymdaith 2019 a materion eraill. Dewch i gefnogi a dewch â'ch syniadau gyda chi.

Adran yr Urdd Llanbedr

Croeso i holl aelodau newydd yr adran. Hoffai aelodau'r adran ddymuno gwellhad buan i Mrs Anthea Jones sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Mae Anthea wedi bod yn gefnogol tu hwnt ac yn un o arweinyddion yr adran ers blynyddoedd bellach ac edrychwn ymlaen yn fawr at ei chael yn ôl gyda ni yn fuan. Dechreuwyd y tymor drwy gael noson o gystadlu brwd wrth i ni chwarae Bingo. Yna'r wythnos ganlynol bu Mrs A Jones a Mrs W Howard yn gwneud noson o ddawnsio gyda'r aelodau - diolch iddynt. Noson o grefft wedyn yn seiliedig ar y darn barddoniaeth "Dawns y Dail" gan Llew Jones - diolch i Mrs A Evans am baratoi. Mae'r aelodau ar hyn o bryd yn paratoi tuag at Oedfa Sul yr Urdd a gynhelir ar Dachwedd 25 yng nghapel Noddfa am 5.00 - croeso i chi gyd i ddod i gefnogi.

Gwellhad Buan

Gobeithio erbyn hyn fod Beryl Davies, Awel-dêg, Heol Cambrian ac Emyr Richards, Goedwig, Heol Llanwnnen yn gwella yn dilyn cyfnod yn yr ybyty yn ddiweddar.



Y plant, y bobl ifanc a'r rhieni a fu'n cymryd rhan yn Oedfa Ddiolchgarwch Ysgol Sul Noddfa ac yn eu canol mae ein Gweinidog newydd y Parchedig Athro Densil Morgan

Noddfa

Da oedd gweld cynulliad lluosog iawn wedi dod ynghyd i Noddfa nos Sul 21 Hydref i Oedfa Ddiolchgarwch yr Ysgol Sul a oedd wedi ei llunio gan Janet. Mewn pennill â chân diolchwyd i Dduw am ei roddion gan gofio hefyd am y miloedd sy'n dioddef. Braf oedd gweld 26 yn cymryd rhan yn cynnwys plant, pobl Ifanc a'u rhieni a phawb yn gwneud eu gwaith yn raenus.

Croesawyd pawb gan Elan yn enwedig ein Gweinidog newydd y Parchedig Athro Densil Morgan. Yna cafwyd datganiad swynol iawn o'r emyn 'Am gael cynhaeaf yn ei bryd' gan Cerys gan greu awyrgylch hyfryd. Offrymwyd gweddïau gan Helen a Sian Croesor, bu Sion, Osian Jones, Osian Roberts a'r criw lleiaf yn cyhoeddi'r emynau a darllenwyd Salmau gan Siân Rhandir a Delyth. Cyflwynwyd sgwrs gan Lisa, Elan a Beca yn llawn hiwmor ond hefyd â neges bwysig i ni gyd. Y llefarwyr oedd Iona, Llinos a Gwenllian a bu Tudur, Rhun, Trystan Wyn a Trystan Bryn yn adrodd pennill yr un. Pleser oedd gwrando ar y criw lleiaf yn canu ac yn adrodd sef Ifan, Cai, Hari, Llew, Esther, Lynwen a Kara er bod ambell un o'r merched wedi mynd ar streic ar y dechrau! Maent yn codi gwên bob amser. Gwelwyd Hari, Llew a Kara yn cymryd rhan am y tro cyntaf - mae'r tri wedi setlo lawr yn hapus iawn yn yr Ysgol Sul. Cafwyd neges bwrpasol gan ein Gweinidog gan ddechrau yn addas iawn, yn dilyn y llifogydd mawr, gyda hanes Noa a'r plant yn ymateb yn frwd i'w gwestiynau. Ychwanegodd ei bod yn bwysig iawn dod ynghyd i ddiolch i Dduw am ei holl ddaioni.

Longyfarchwyd nifer o'r bobl ifanc ar eu llwyddiant anhygoel mewn gwahanol feysydd sef Cerys ar y delyn, Beca a'i brawd Osian mewn Athletau a'u cefnder Sion mewn rasys beiciau modur. Diolchodd ein Gweinidog i'r plant, y bobl ifanc a'r rhieni am wledd, i Janet am ei gwaith mawr yn paratoi, i Alwena am ei gwasanaeth wrth yr organ ac i'r dynion am osod y llwyfan. Talodd deyrnged hefyd i Derek, Alun, Alwyn, Tudur ac Eifion am eu gwaith yn codi'r carped yn y gegin yn dilyn y llifogydd. Daeth y plant a'u teuluoedd â chyfraniadau i'r Banc Bwyd Lleol - gwerthfawrogi eu caredigrwydd. Tystiai pawb yn bresennol eu bod wedi cael bendith a mwynhad yn cyd-addoli gydag ieuencid yr eglwys.

Merched y Wawr

Ein gŵr gwadd mis Hydref yma oedd Aled Dafis, yn sôn am ffotograffiaeth. Mae Aled yn dod yn wreiddiol o Flaencwrt ac wedi mynychu Ysgol Gynradd Cwrtnewydd ac Ysgol Gyfun Llanbedr cyn mynd ymlaen i'r coleg ym Mhontypridd. Bu'n gweithio i 'Chorus' yng Nghwmafan, 'Mono Equipment' yn Abertawe, lle'r oedd yn cynllunio offer coginio bara, a 'Celfac' yn Ninbych y Pysgod cyn penderfynu mynd yn athro, ac erbyn hyn yn dysgu yn Ysgol Gyfun Llanbedr. Heb os, gallwn ddisgrifio Aled fel person amryw dalentog, gan ei fod yn beiriannydd, yn saer a chrefftwr heb ei ail a heno wedi dangos ei dalentau fel ffotograffydd arbennig. Dangosodd luniau o'i hoff fannau lleol, Aberaeron a Chei, Carreg Bica a thraeth Llangrannog, y creigiau a'r môr. Hefyd adeiladau sy'n ennyn ei ddiddordeb fel Yr Eglwys Gadeiriol yn Nhŷ Ddewi, Canolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd ac adeiladau'r coleg yn Rhydychen. Lluniau hwyrol a lluniau boreol, lluniau mewn gwahanol dywydd a'r rhan fwyaf yn ei hoff gyfrwng sef du a gwyn. Gwnaed y diolchiadau gan Elma, hithau yn diolch i Aled am ein gwneud i werthfawrogi ein cynefin a phrydferthwch mannau lleol, hefyd am lawer cyngor ynglŷn â thynnu llun da. Diolchodd i Brenda, Glesni a Gwynfil am wneud y te. Enillydd y raffl oedd Pat.

Mae mis Hydref a Thachwedd yn llawn digwyddiadau diddorol yn dechrau gyda Bowlio 10 yng Nghaerfyrddin ar Hydref 22ain. Ar y 9 fed o Dachwedd mae cwis Merched y Wawr yn Nhŷ Glyn Aeron gyda sawl tîm yn cymryd rhan. Ar Dachwedd 14eg bydd grŵp ohonom yn mynd i weld sioe gerdd 'Nyrsys' yn Adran y Celfyddydau yn Aberystwyth. Byddwn yn cwrdd ym mis Tachwedd ar y 12 fed i fwynhau ein cinio blynyddol yn y 'New Inn' yn Llanddewi Brefi.

Llanbedr Pont Steffan

Sêl Llyfr am £1,000 er cof am Ann Rhys Davies i Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru.



Noddwyd a chyhoeddwyd llyfr o gerddi, 'I Gofio'r Gaeafau' gan Roy Davies, Felinfach, er cof am ei ddiweddar briod Ann Rhys Davies. Dyma waith gan aelodau 'Trafod Cerddi Llambled', lle oedd Ann yn aelod, a chydlynwyd y cyfan gan Idris Reynolds. Yn ddiweddar, trosglwyddwyd holl elw'r llyfr, sef £1,000 gan Roy Davies i Ann Davies, Trysorydd Cangen Llanybydder a Llambled, Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru. Hefyd yn y llun mae – o'r chwith - Ceinwen Evans, Aelod; Jennie Breacher, Ysgrifenyddes; Ifor Williams, Llywydd; Dave Smith, Cadeirydd ac Aneurin Jones, Aelod.

Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020

Byddwn yn lansio Cronfa Apêl Llanbedr ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 am 7 o'r gloch yng Nghlwb Rygbi Llanbedr ar nos Wener 23 Tachwedd. Dewch yn llu i gefnogi'r apêl. Bydd noson gymdeithasol i ddilyn gyda Bois y Rhedyn. Trefnwyd y noson gan Plaid Cymru a bydd hanner yr elw yn mynd at gronfa'r apêl.

Llewod Llambled

Erbyn hyn, rydyn ni, tîm pêl-rwyd Llewod Llambled wedi dechrau ein tymor cyntaf yng nghynghrair pêl-rwyd Ceredigion. Mae dechrau clwb newydd yn ddrud ac rydym yn hynod ddiochgar am yr holl gymorth ariannol rydym wedi ei dderbyn er mwyn ein helpu i redeg y clwb. Mae Ceredigion Actif yn garedig iawn wedi rhoi arian ar gyfer llogi'r neuadd a chynnal cyrsiau tra bod Tai Wales and West wedi bod yn hael iawn trwy ariannu ein ffrogiau chwarae. Diolch hefyd i Gyngor y Dref am gyfrannu. Bydd yr arian yma'n helpu i brynu adnoddau. Mae ein diolch yn enfawr i bawb sydd wedi cytuno i'n noddio ac i Natalie, sef aelod o'r clwb, am drefnu gyda'r cynrychiolwyr.

Ar Hydref y 7fed mynychodd 10 aelod o'r clwb gwrs dyfarnu yn y Ganolfan Hamdden. Cynhaliwyd y cwrs gan Bêl-rwyd Cymru ac roedd yn gwrs hwyliog, llawn gwybodaeth. Galluogwyd ni i ddysgu mwy am reolau'r gêm a chynyddu ein hyder i ddyfarnu gêm. Diolch i Claire Williams am gynnal y sesiwn, am ei hesboniadau syml ac am rannu ei gwybodaeth helaeth â ni.

Cynhaliwyd twrnaint cyn dechrau'r cynghrair yn Aberaeron ar y 10fed o Hydref. Dyma gyfle gwyhych i ni fel tîm newydd gwrrd â'r timau eraill y byddwn yn chwarae yn eu herbyn yn ystod y tymor. Rhaid dweud, roeddwn fel chwaraewyr yn nerfus ar y dechrau gan fod rhai aelodau o'n sgwad yn absennol gan gynnwys ein capten Elen Davies. Ond, gwnaethom ddal ein tir a llwyddo i ennill un allan o dair gêm. Heb os, roedd yn noson fuddiol a wnaeth ein helpu ni i wella fel tîm a rhoi profiad llawn hwyl ond cystadleuol i ni. Edrychwn ymlaen nawr i ddechrau'r tymor go iawn. Rydym yn ymarfer pob nos iau o 7.00yh-8.30yh yng nghanolfan Hamdden Llambled a chroeso i unrhyw un ymuno â ni. Mwy o wybodaeth ar ein tudalen Facebook- Llewod Llambled.



Aelodau o glwb pêl-rwyd Llewod Llambled yn derbyn sicced oddi wrth Gyngor Tref Llambled.

Yn y Gegin gyda Gareth



Gwledd y Goelcerth o Gegin Clonc

Eleni, beth am wahodd ychydig o ffrindiau a theulu nôl i'r tŷ, ar ôl gwyllo tân gwyllt, i fwynhau danteithion cartref i wresogi pawb. Maent yn ryseitiau hawdd i'w paratoi, ac yn gasgliad y medrwch eu paratoi o flaen llaw. Beth am ddyblu'r maint ar gyfer parti mawr !

Mwynhewch noson Tân Gwyllt, ond cadwch yn ddiogel a chynnes,
O'r gegin,
Gareth

Pasteiod Caws a phicl

1 pecyn o does puff	25 g o gaws wedi gratio
8 llwy de o bicl Branston	1 wy
ychydig o hadau	

1. Rholiwch y toes yn 8 darn sgwâr. Gosodwch lond llwy de o Branston yng nghanol pob un, ac ychydig o gaws arnynt.
2. Brwsiwch wy o amgylch y toes, a phlygwch fel llyfr. Gosodwch ar dun pobi. Brwsiwch ag wy, a sgeintiwyd â'r hadau.
3. Pobwch mewn ffwrn 200 C am 15 munud.

Rocedi Selsig a thomato

24 o selsig bach	1 llwy de o berlysiau
1 pot o domatos haul-goch	ychydig olew
50 g blawd plaen	1 wy
75 ml llaeth	50 g caws Parmesan wedi gratio

1. Trowch y ffwrn i 200 C. Nwy 6.
2. Rhannwch yr olew rhwng tuniau pobi bychan, ac yna dodwch selsig ym mhob twll. Pobwch am 5 munud.
3. Curwch y cynhwysion i wneud y cyteu.
4. Gosodwch ddarn o domato ar bob selsigen. Llenwch â'r cyteu. Pobwch am 12 munud nes yn euraidd.
5. Gweinwch gyda saws chilli cynnes.

Pwdin Sinsir a thaffi

25 g datys wedi darnio	250 ml o de
1 llwy de powdwr soda	2 wy
85 g menynd	175 g siwgr mân
175 g blawd codi	1 llwy de sbeis cymysg
4 pellen o sinsir wedi eu darnio'n fân (y rhai mewn syrup)	

1. Trowch y ffwrn i 180 C. Nwy 4
2. Gosodwch y datys a'r te mewn sosban, a choginiwch am 4 munud, yna ychwanegwch y powdwr soda.
3. Hufennwch y menynd a'r siwgr. Ychwanegwch y blawd a'r wyau yn raddol, yna'r sinsir a'r gymysgedd datys.
4. Arllwyswch i dun 22 cm wedi'i leinio, a phobwch am 30 -35 munud.
5. Gweinwch gyda saws taffi cynnes. (Mae modd gwresogi'r pwdin yma mewn popty ping.)



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

*Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion*

Cofrestrwch ar ein gwefan gymunedol
www.clonc360.cymru
er mwyn cyfrannu eich stori chi.





Cylch Meithrin Llanllwni

Ymunodd Cylch Meithrin Llanllwni yn Ymgyrch Dau Gi Bach y Mudiad Meithrin. Cawsom hwyl yn dysgu cân 'Dau Gi Bach', didoli esgidiau mewn parau, arbrofi gyda'r rhif 2 a chreu wyneb Doti. Trefnwyd taith gerdded noddedig i blant Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi. Aethom am dro o gwmpas eglwys Sant Luc, Llanllwni. Cawsom siwrne hyfryd wrth weld yr afon Teifi, hwyaid yn nofio ar yr afon a sylwi ar arwyddion yr hydref. Arhosodd y tywydd yn sych hefyd! Gwnaeth pob plentyn yn arbennig o dda wrth gerdded o gwmpas yr eglwys. Codwyd £480 mewn arian noddi tuag at gronfa'r Cylch sy'n ymdrech arbennig! Diolch i bawb a wnaeth ymuno gyda ni ac am godi swm gwych! Rydym wedi bod yn mwynhau dysgu am yr hydref. Cawsom dasg adref i fynd am dro tu allan a chasglu pethau sy'n ymwneud gyda'r hydref. Buom yn creu llun gyda'r brigau a'r dail, ac yn arsylwi'r cnau, mes a choncyrs. Rydym hefyd wedi bod yn dysgu am gysgaduriaid, eu creu nhw gyda gwahanol adnoddau celf ac wedi creu tŷ iddyn nhw yn ein dosbarth.

Ar y 31ain o Hydref, cynhaliwyd parti calan gaeaf yn neuadd yr Eglwys. Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr am y gefnogaeth gyda'r elw yn mynd tuag at y Cylch Meithrin. Braf oedd gweld cymaint o blant yn eu gwisgoedd.

Nid yw'n rhy hwyr os ydych awydd trip i Gaerdydd yn ystod gêm Cymru yn erbyn Awstralia ar y 10fed o Dachwedd. Cysylltwch â Glenys Evans am wybodaeth bellach.

Cofiwch am ffair Nadolig blynyddol yr ysgol a'r Cylch Meithrin sy'n cymryd lle yn yr ysgol Gynradd ar y 1af o Ragfyr am 10 y bore. Fe fydd amryw o stondinau ar gael yno. Fe fydd y raffl fawr yn cael ei thynnu yno hefyd, cysylltwch ag unrhyw un o'r staff neu'r pwyllgor am docyn - mae yna wobrau arbennig.

Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Bethan Vernon ar 07875409172 neu cylchmeithrinllanllwni@yahoo.co.uk

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Braf yw gweld aelodau newydd yn ein Cylch Ti a Fi. Buom yn brysur iawn yn dylunio cardiau Nadolig ein hunain er mwyn eu danfon bant i gael eu hargraffu fel cardiau Nadolig. Gwnaeth pawb fwynhau creu coed yr hydref, gwneud draenog bach a gweithgareddau Calan Gaeaf. Ein hamserlen am Dachwedd: 06/11/18 Gweithgareddau Tân gwyllt 13/11/18 Gweithgareddau Diwali 20/11/18 Gwneud pitsa 27/11/18 Chwarae sensori a Little Prints 04/12/18 Creu addurn Nadolig.

Cynhelir Cylch Ti a Fi ar brynhawniau dydd Mawrth yn ystod y tymor, rhwng 1 a 3yp ar gampws yr ysgol gynradd. Pris y sesiwn yw £1.50 y teulu. Croeso i rieni, gofawlyr, mam-gu's a thad-cu's i ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros baned.

C.F.F.I. Llanllwni

Helo, a chroeso i rifyn arall wrthym ni Ffermwyr Ifanc Llanllwni. Mae'r rhifyn yma'n llawn canlyniadau'r Eisteddfod C.F.F.I a gynhaliwyd ar Nos Wener, Hydref 12fed a'r 19eg ac ar Ddydd Sadwrn 20fed yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin. Profodd y clwb nifer o lwyddiannau o lefaru, i ganu ac i

feimio. Dyma i chi ganlyniadau'r tridiau :

Cystadlaethau'r llwyfan :

1af - Parti Llefaru. 2il - Unawd dan 21 - Lois Thomas, Sgets - Ifor Jones, Hefin Jones a Steffan Evans, Deuawd Doniol - Ifor Jones, Hefin Jones a Siriol Howells. 3ydd - Canu Emyrn - Sioned Howells, Meimio, 'Stand - up' - Owain Davies.

Gwaith Cartref : Rhyddiaith (Y Goron) - 1af Sioned Bowen, 2il Sioned Howells. Cerdd (Y Gadair) - 2il Luned Jones. Cystadleuaeth dan 26 - 3ydd Sioned Howells. Cystadleuaeth dan 16 - 1af Ceris Howells. Brawddeg - 1af Marek Phillips Cydradd Trydydd Siriol Howells ac Ifan Thomas. Ffotograffiaeth - 2il Gruffydd Jones. Limrig 1af - Siriol Howells. Cyfansoddi Cân - 3ydd Marek Phillips. Tarian y Gwaith Cartref - 1af. Tarian yr Eisteddfod - 2il

Felly dyna ni - gobeithio nad oedd y rhestr yn rhy hir i chi! Erbyn hyn, mae yna lawer o bethau ar wahân i'r Eisteddfod wedi cael eu cynnal. Roedd y Gymanfa Fodern yn llwyddiant ysgubol a braf oedd gweld yr Eglwys yn orlawn gyda chefnogaeth i'r clwb. Mae'r Cwrdd Diolchgarwch wedi ei gynnal bellach a hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r Canon Aled Williams am ei anerchiad pwrpasol, i bawb a fynychodd y cwrdd ac i'r aelodau gymerodd ran yn y gwasanaeth. Bu noson Swper y Cynhaef yn un llwyddiannus dros ben gyda phawb yn mynd adref wedi cael llond eu boliau! Braf oedd cael adloniant wrth aelodau'r clwb gan fod hyn yn atgyfnerthu llwyddiant y clwb yn yr Eisteddfod. Cofiwch hefyd bod y clwb yn cynnal Taith Dractorau fel y digwyddiad i ddathlu 75 mlynedd ers dechrau'r clwb. Fe fydd y digwyddiad yn cael ei gynnal ar Ddydd Sul y 4ydd o Dachwedd am 10:30 y bore ar Iard T.L.Thomas lle bydd pob tractor yn costio £20. Bydd hynny'n cynnwys brecwast cyn dechrau a chinio i orffen. Felly croeso cynnes i bawb a gobeithio gwelwn ni chi yna!

Eglwys Sant Luc

Undeb y Mamau - mis Hydref. Daeth y Parchedig Chris Bolton atom, a bu trafodaeth ddiddorol am y pedwar tymor a'r geiriau a'r farddoniaeth ynghlwm â'r tymhorau. Diolch yn fawr iddo.

Ar y 13eg o Dachwedd bydd Luned Davies yn bresennol.

Cafwyd gwasanaethau diolchgarwch bendithiol iawn dan arweiniad y Parch Aled Williams - plant yr ysgol yn y prynhawn, a gwasanaeth i'r Eglwys am 7yh. Diolch yn fawr iddo.

Y noson ganlynol fe gynhalion ein swper cynhaef blynyddol yn y Neuadd. Roedd hon yn noson hwylus iawn, a braf gweld yr ieuenctid, a'r bobl hyn yn cyd fwynhau'r bwyd blasus.

Hoffai aelodau'r Eglwys ddiolch eto i'r Parchedig Philip Wyn Davies, ein Deon Gwlad, am sicrhau fod y pedair eglwys yn ein grŵp yn cael cadw at amserau'r gwasanaethau, a bod Ficer yn bresennol bob tro. Gwerthfawrognw ei waith caled.

Cynhelir Bingo'r Eglwys yn y Talardd ar nos Lun, Tachwedd 19eg am 7.30y.h.

Eisteddfod



Enillwyr dan 12oed yn Eisteddfod Gadeiriol Felin-fach - O'r chwith - Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni - Cyntaf-Canu Penillion ac ail - Cân Werin; Lois Elisa Daniels, Felin-fach - ail ar yr unawd; Alwena Mair Owen, Llanllwni - Cyntaf-Unawd, Cyntaf - Llefaru, Cyntaf - Canu Emyrn, ac ennill y cwpan am unawd ar y piano; Betrys Llwyd Dafydd, Abermeurig - ail - Canu Emyrn; Megan Wyn Morris, Talyllychau - Cyntaf - Cân Werin ac ail Unawd Piano.



Fedwrn ni ddim cynllunio a gweithio tuag at ddyfodol llewyrchus i gymunedau cefn gwlad Ceredigion heb sicrhau bod ein diwydiant amaeth ni'n gynaliadwy, yn hyfyw ac yn ffynnu.

Yn anffodus, mae gan y diwydiant ffermio yng Nghymru'r potensial i fod un o'r diwydiannau gaiff ei heffeithio fwyaf yn sgil Brexit. Yn ogystal â'r ansicrwydd parhaus a ddaw o gyfeiriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ar 10 Gorffennaf eleni lansiodd Llywodraeth Cymru ei hymgynghoriad 'Brexit a'n Tir'. Mae'r ymgynghoriad hwn yn argymhell diddymu Taliadau Uniongyrchol, sy'n ffurfio tua 80% o incwm ffermydd Cymru, a'u disodli gan un cynllun amgylcheddol 'nwyddau cyhoeddus'.

Gallai'r cynigion hyn weld y newid mwyaf i amaethyddiaeth yng Nghymru a'n cymunedau ffermio ers yr Ail Ryfel Byd. Gallai ansicrwydd Brexit gael ei ddwsáu gan gynigion byrbwyll Llywodraeth Cymru fyddai ond yn ychwanegu at bryder ac ansicrwydd ffermwyr. Mae perygl gwirioneddol y gallai'r argymhellion daseilio gallu rhai ffermwyr i barhau i gynhyrchu bwyd a bod yn geidwaid tir.


Mae'r Alban eisoes wedi penderfynu cynnal taliadau sylfaenol i ffermwyr ac mae'n debyg y bydd Gogledd Iwerddon yn dod i'r un penderfyniad. Golyga hyn y bydd y gefnogaeth ariannol i ffermwyr nid dim ond yn amrywio o fewn yr Undeb Ewropeaidd, ond o fewn y Deyrnas Unedig hefyd, a gallai hynny roi ffermwyr Cymru dan anfantais sylweddol. Ni ddylid anwybyddu chwaith goblygiadau hir dymor yr argymhellion hyn ar hyfywedd ein cymunedau gwledig, yr iaith Gymraeg a'n diwylliant.

Bydd Plaid Cymru bob amser yn cefnogi ac yn dadlau o blaid ffermwyr Cymru, o blaid cynnyrch o Gymru ac o blaid cefn gwlad. Mae ffermio a chefn gwlad yn hanfodol i'n gweledigaeth i Gymru. Ar yr adeg hon o ansicrwydd ac ansefydlogrwydd economaidd, mae Elin Jones a minnau wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i rewi'r taliadau uniongyrchol am o leiaf pum mlynedd er mwyn galluogi ffermwyr i gynllunio'n iawn ar gyfer y dyfodol.

Hoffwn ddiolch i'r undebau amaeth am eu cydweithrediad agos dros yr wythnosau diwethaf. Bydd Elin Jones a minnau yn parhau i gynnal sgysiau a thrafodaethau gyda ffermwyr a'r diwydiant amaeth dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf er mwyn sicrhau bod llais y diwydiant i'w glywed yn glir yng Nghaerdydd ac yn San Steffan.



Colli'r Hogiau



Colli'r Hogiau gan Alan Llwyd

Dim ond enwau ar gofebau yw milwyr y Rhyfel Byd Cyntaf i lawer erbyn hyn, ond mae Alan Llwyd am ein hatgoffa mai tadau, meibion a brodyr; pobl oedd y rhai a gollwyd

Yn Colli'r Hogiau mae'n rhannu straeon dirdynol rhai o'r milwyr a enwir ar gofebion Cymru, ac effaith y golled ar y cymunedau, teuluoedd a ffrindiau a adawyd ar ôl.

Cyfrl am y Rhyfel Mawr, y Cymry a Chymru yw Colli'r Hogiau: Cymru a'r Rhyfel Mawr 1914 - 1918; yn dangos sefyllfa'r Cymry a'r Gymraeg o Wynedd i Went ac o Feirion i Forgannwg.

Pori trwy adroddiadau o bapurau newyddion a phapurau bro yr adeg oedd man cychwyn

ymchwil Alan fel awdur. Ond yn ogystal â hyn apeliodd Alan i'r cyhoedd am straeon a deunydd personol am filwyr, morwyr ac awyrenwyr oddi wrth deuluoedd y rhai a fu'n brwydro yn y Rhyfel Mawr.

"Cefais ymateb rhyfeddol," dywedodd, "ac mae'n drueni na fedrais ddefnyddio popeth a anfonwyd ataf."

Canlyniad yr ymchwil hwn yw cyfrl ddiffiniol sydd yn adrodd hanesion dirdynol, arwrol, trasig a phersonol un o adegau tywyllaf yn hanes y byd.

Dyma lyfr sy'n cloriannu ymdrechion y Cymry a'r pris a dalwyd ganddynt. Ganrif wedi diwedd yr ymladd, mae'r gyfrl yn deyrnged werthfawr iddynt.

Mae'r gyfrl wedi'i rhannu yn 12 pennod ac yn cynnwys 57 o luniau o'r milwyr, eu teuluoedd, a'r cofebion.

"Bu'n daith hir," dywedodd Alan, "ac, o'r diwedd, dyma gyrraedd pen y daith."


Silian

Plwyf Silian a'r Rhyfel Byd Cyntaf

Eleni ar Ddiwrnod y Cadoediad fe fyddwn yn cofio aberth rhai o drigolion Silian yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a ddaeth i ben union ganrif yn ôl ar Dachwedd 11eg 1918. Tu fewn i eglwys Silian ar un o furiau'r adeilad hyfryd yma, ceir carreg goffa i gofio'r aberth eithaf gan y Preifat Thomas Parry o'r 'Royal Irish Fusiliers' a gafodd ei ladd yn Gallipoli, Dardanelles ar Awst 15fed yn 36 mlwydd oed. Dim ond 13 Cymro yn unig oedd yn aelod o'r bataliwn yma.

Roedd yn fab i Thomas a Gwenllian Parry o Glanyrafon ym mhlwyf Silian a chafodd ei eni yn 1880. Dengys Cyfrifiad 1891 ei fod yn llanc 11 mlwydd oed yn gweithio fel gwas ar fferm Gwarffynnon. Pan gychwynnodd y Rhyfel Byd roedd ef a'i frawd Evan yn gweithio ym Mhwl Glo'r Maerdy yn y Rhondda.

Roedd Thomas yn hen, hen ewythr i'r awdures Miss Eirian Jones o Langeitho ac yn wir fel teyrnged iddo, ym mis Awst 2015 ymgwymerodd â'r daith hynod emosynol i Dwrci er mwyn ymweld â'r safle lle colodd ei fywyd mor drychinebus, union ganrif yn ôl.



Roedd ei hen, hen dad-cu Evan Parry hefyd yn ymladd gyda'r 'Royal Welsh Fusiliers' ac ymddangosodd erthygl ym mhapur newydd 'Y Llan' yn cyhoeddi fod Sarjant Evan Parry wedi derbyn croeso mewn cyngerdd arbennig yn ysgol Silian ar nos Iau 22ain o Dachwedd 1917, pan ddychwelodd i'w blwyf genedigol am yr ail waith yn ystod y Rhyfel.

Cafodd ei longyfarch am ennill y Fedal Filwrol a chyflwynwyd nodyn punt iddo. Cafodd y gynulleidfa ei diddanu gan gantorion lleol, yn cynnwys rhai o blwyf Betws Bledrws.

Mae yna adroddiad papur newydd arall sy'n adrodd hanes Gwasanaeth Coffa a gynhaliwyd yn Eglwys Silian yn dilyn marwolaeth drist y Corporal David Jones o Brynstores, Silian yn y frwydr gerllaw Poziere, Ffrainc ar Orffennaf 23ain, 1916 yn 27 mlwydd oed. Un arall o ddynion ifanc dewr Silian a dderbyniodd y Fedal Filwrol oedd y Preifat D.Davies, sef mab Mr a Mrs Daniel Davies o Bistyllgwyn.

Daeth trychineb arall i ran y plwyf pan fu farw Watkin Davies, sef unig fab Coedparc sydd yn ffinio â phlwyf Silian. Wedi ymladd yn y dwyrain pell cafodd ei glwyfo ym Mrwydr y Somme ar Fedi 21ain 1918 a bu farw mewn ysbyty carcharorion yn Cologne, Yr Almaen, pedwar diwrnod ar ôl y Cadoediad. Roedd yn hen, hen ewythr i Aelod Cynulliad Ceredigion Miss Elin Jones ac mae'r hanes llawn yn ddiddorol a hynod o drist. Yn fras, fel mab fferm nid oedd disgwyl iddo ymuno â'r fyddin, ond roedd ei dad yn teimlo y byddai'n elwa o'r profiad gan ei fod wedi cael ei sbwylio ychydig gan ei chwiorydd. Yn anffodus ni ddychwelodd fyth i ymgymryd â ffermio Coedparc.

Wedi sefydlu Menter Silian, ein gobaith yw ail agor Eglwys Silian fel canolfan gymunedol ac o ganlyniad fe fydd yn sicrhau fod aberth y dynion dewr yma o blwyf Silian yn aros yng nghof y trigolion am byth.

Ar Ddydd Iau Tachwedd 15fed yng Nghlwb Rygbi Llambod, fe fydd Menter Silian yn cynnal Digwyddiad Gwybodaeth Gymunedol. Y bwriad yw rhoi ychydig o wybodaeth i'r cyhoedd am ymdrech Menter Silian i ail agor Eglwys Silian fel canolfan gymunedol ar gyfer trigolion y plwyf ac yn wir yr ardal ehangach.

Cynhelir sesiwn galwch i mewn rhwng 3.00 a 7.00 y.h felly mae croeso i bawb alw am sgwrs a rhannu syniadau. Darperir lluniaeth ysgafn a thafleuni lliwio i blant.

Yna gyda'r hwyr rhwng 7.00 a 8.30 y.h ceir cyflwyniadau ffurfiol gan y canlynol:

- Menter Silian: sut rydym wedi cyrraedd y pwynt yma
- John Morgan-Guy (Ymddiriedolwr o 'Friends of Friendless Churches'): adeiladau eglwys a pham fod ein heglwys ni'n bwysig
- Caroline James (CJ Consulting): canlyniadau'r arolwg cyflwr adeilad
- Adam Hitchings (Cronfa Treftadaeth Bensaerniol): enghreifftiau o brosiectau tebyg sydd wedi cael eu hariannu gan y CTB

'Cyllidwyd y prosiect hwn drwy raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.'

Hoffwn ymestyn croeso cynnes i holl drigolion Silian a'r gymuned ehangach

*Am y newyddion diweddaraf ewch i dudalen Facebook Hen Eglwys Silian ar <https://bit.ly/2y61f8p> neu edrychwch ar hysbysfwrdd y pentref yn lloches bws Silian

Aled Evans

Llanybydder



Cynhaliwyd Bore Coffi yng Ngwesty'r Cross Hands yn ddiweddar gyda'r elw yn mynd tuag at elusen Macmillan. Trefnwyd y bore coffi gan Y Cynghorydd Ieuan Davies a gwnaethpwyd elw o £1020.00 a oedd yn cynnwys siec o £292.50 er cof am Mr Vivian Evans Heol y Gaer. Yn y llun mae Peter Evans, y Cynghorydd Ieuan Davies, Gill Evans a Tina Rees.



Mae Mrs Mavis Beynon wedi bod yn Ysgrifenyddes i Gyngor Cymuned Llanybydder am 30 o flynyddoedd. Yn y llun mae hanner y cynghorwyr. Da iawn chi Mavis.

Cellan

Eisteddfod



Beca Ebenezer, Cellan yn ennill y cyntaf ar y llefaru 8-10 oed a Fflur McConnell, Aberaeron yn gyntaf ar yr unawd 8-10 oed ac yn ail am ganu penillion dan 12oed yn Eisteddfod Gadeiriol Felin-fach yn ddiweddar.

Pwyllgor y Pentref

Bydd Pwyllgor y Pentref yn cynnal Noson 'Tân Gwyllt' ar y 3ydd o Dachwedd yn y Llew Du. Bydd y gatiâu yn agor am 6 o'r gloch a'r arddangosfa dân gwyllt yn dechrau am 6.30y.h. Bydd yna gawl, cŵn poeth a choffi.

Dathlu

Dathlodd Linda Davies, Cadwyn Aur ben-blwydd arbennig yn ddiweddar. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu.

Buddiannau Henoed Llanybydder

Cynhelir Pwyllgor Blyneddol Buddiannau Henoed Llanybydder yn Ffestri Aberduar ar nos Fawrth, Tachwedd 6ed am 7.00y.h. Croeso i aelodau newydd.

Ysgol Feithrin

Mae'r ysgol feithrin yn cynnal noson o Fingo ar y 27ain o Dachwedd yn y clwb rygbi am 8 o'r gloch. Hefyd, Ffair Nadolig ar y 15fed o Ragfyr yn y Llew Du am 10 o'r gloch. Bydd yna stondinau gwahanol a cheir hefyd ymweliad gan Siôn Corn.

Diolch

Dymuna Aerwyn ac Ogwen ddiolch yn fawr iawn am y cardiau lu, anrhegion a blodau a dderbyniwyd ar ben-blwydd eu Priodas Saffir Glas [65 mlynedd] ar y 3ydd o Hydref. Diolch.

Pentrebach

Cydymdeimlo

Syfrdanwyd yr ardal pan glywyd am farwolaeth sydyn Mrs Doris Jones, Cwmgwyn [Pentreshon gynt] yn ystod mis Hydref. Cydymdeimlwn yn fawr iawn gyda'i phriod Andrew a'r holl gysylltiadau teuluol i gyd.

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'

- * Cacenau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
- * Bwffe mawr neu fach
- * Darteithion i de
- * Pwdinau
- * Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

The Wash Tub

Heol y Gogledd (gyferbyn â'r gofgofofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel: smwddio, golchi, sychu ac yn golchi *duvets*. Sychlanhau ar y safle.



Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- * Datrys Problemau a Trwsio
- * Ymweliadau Cartref
- * Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- * Pherifferolion Ar Werth
- * Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com

graham@tynici.com



Dawns
WELSH GIFTS
Llanbedr Pont Steffan

COFRODDION A CHERDIAU CYMREIG
PERSONOL AC UNIGRYW WEDI EU
GWNEUD Â LLAW YN EIN GWEITHDY

DEWCH I YMWELD Â'N ADRAN BRIODASAU NEWYDD
01570 423884

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llanbedr
Ffôn: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Yswiriant tŷ/
cynnwys

Tai Bwyta / Siopau

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401
E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Helo bawb. Gan ei bod hi'n fis Tachwedd, dyma gerdd i chi am 'Noson Guto Ffowc'.	Geirfa i'ch helpu tân - fire
Tân gwyllt, tân gwyllt Mae'n rhaid cadw draw, Mae'r gwreichion yn codi Yn goch ar bob llaw.	prysur - busy gwreichion - sparks casglu - collect
Bu'r plant wrthi'n brysur Yn casglu ers tro Bob math o hen sbwriel O gwmpas y fro.	sbwriel - rubbish coelcerth - bonfire
Wel, dyna i chi goelcerth Sydd gennym yn awr – Hen focsys, hen frigau Yn bentwr ar lawr.	brigau - twigs pentwr - pile eistedd – sit
Mae Guto yn eistedd Yng nghanol y mwg – 'Fe gei di dy losgi Am fod yn ddyn drwg.'	mwg - smoke llosgi – burn
Mae'n rhyfedd fod pawb Mor hoff o'r hen ŵr! Fe hoffai gael dianc O'r fflamau mae'n siŵr!	drwg - bad hen - old dianc - escape fflamau - flames
Mary Williams	



Mae Julia Hughes yn byw yn ardal Llanfair Clydogau ac wrth ei bodd yn dysgu siarad Cymraeg. Mae hi wedi ysgrifennu llythyr. Gobeithio y gwnewch chi fwynhau ei ddarllen!

Llythyr i fi fy hunan fel dysgwr!

Annwyl Julia,

Y gair pwysig i ti i'w gofio yw – paid! Pam 'paid' tybed? Wel - paid disgwyl bod yn rhugl yn gyflym. Paid stopio siarad Cymraeg o gwbl yn enwedig os nad yw pobl yn dy ddeall. Yn hytrach, dechreu pob sgwrs yn Gymraeg gan obeithio bod y person hynny yn siarad yr iaith. Paid panico os mai dim ond un gair allan o ddeg rwyd ti'n deall. Ar ôl ychydig o flynyddoedd, bydd mwy a mwy o eiriau yn aros yn dy gof. Paid colli dy hyder wrth siarad Cymraeg gan y bydd pob Cymro yn llawen iawn ac yn sylweddoli dy fod ti'n gwneud ymdrech i gyfathrebu yn eu mamiaith.

Paid anghofio dweud – 'Siaradwch yn araf os gwelwch yn dda' a 'Dw i'n flin, dw i ddim yn deall pob gair.' Bydd hyn yn rhoi tipyn o amser i ti gyfieithu y geiriau cyn ymgeisio i ateb yn Gymraeg. Paid meddwl am esgusodion i beidio mynychu'r cyrsiau sydd ar gael a'r teithiau sydd wedi eu trefnu ar dy gyfer. Paid anghofio gwrando ar y radio a gwylio S4C. Mae'n bosib gwneud tasgau rownd y tŷ neu yrru o le i le wrth wrando ar y radio. Mae gwrando ar yr iaith lafar naturiol yn dy helpu i ddeall pobl ar y stryd neu ar y ffôn yn siarad. Paid anwybyddu CYD sef Cymdeithas y Dysgwyr sy'n trefnu cyfarfodydd bob wythnos gyda pherson rhugl sy'n helpu pawb dros baned mewn caffî. Felly, y peth pwysig i'w gofio yw – paid stopio! Dal ati ac fe gei di lot o hwyl yn y broses.

Cofion,
Julia.

Llanfair Clydogau

Sefydliad y Merched

Ar nos Iau, Hydref 27ain, cynhaliwyd noson agored pan wahoddwyd Alan Leech i siarad am Mrs Annie Jones, gwraig William Jones Glandenys, cymeriadau ei lyfr diwethaf.

Cawsom noson ddiddorol iawn yn clywed stori Annie o ongl wahanol, nid fel gwraig William Jones ond fel dynes yn byw a gwneud ei phenderfyniadau ei hunan yn y gymuned gyda Llanfair yn chwarae rhan bwysig yn y bywyd hwnnw. Roedd darlith bwerbwynt ddarluniol Alan yn rhoi cyfle i ni weld hen luniau, dogfennau a dyfyniadau o bapurau newydd y cyfnod. Daeth tua 35 ynghyd gyda phawb wedi dysgu llawer am hanes cymeriadau hanesyddol y fro a'i dylanwadau parhaol ar rai o bentrefi lleol. Daeth y noson i ben trwy gael lluniaeth ysgafn a chyfle i gymdeithasu a rhannu ambell stori am y teulu pwysig hwn.

Clwb Cerdded Llanfair

O ganlyniad i'r diddordeb a ddangoswyd gan bobl noson y ddarlith, trefnodd Sally ac Alan Leech i'r clwb cerdded fynd ar daith i weld Plas Glandenys. Dechreuodd y daith ger llyn Glynhebog gyda thua ugain ohonom yn cerdded tua milltir i'r plas, lle'r oedd Alan wedi trefnu i ni gwrdd â'r perchennog, Rhodri Evans, mab Julian Caio Evans. Cawsom groeso arbennig gan Rhodri a dywedodd wrthym dipyn o hanes yr hen blas, a llawer stori ddiddorol am ei dad. Yna aeth â ni i ddangos rhan o'r tŷ a oedd yn arfer bod yn ystafell ddawnsio. Erbyn hyn, mae'r rhan hon o'r tŷ wedi ei hadnewyddu i fod yn dri llety. O ganlyniad i'w garedigrwydd, cawsom gyfle i fynd drwy brif fynedfa'r plas i weld y grisiau derw crand cyn mynd i mewn i'r brif ystafell groeso, lolfa gysurus y teulu erbyn hyn ac yno roedd lle tân prydferth iawn a gafodd ei symud o'r ystafell ddawns pan oeddent yn adnewyddu'r tŷ. Cyn gadael, dangosodd Rhodri ni o amgylch yr hen stablau lle cadwai Annie Jones ei hoff geffylau parchus, a Caio ei dad ei geffylau enwog yntau hefyd. Wrth i ni ymadael, canodd Rhodri'r hen gloch sydd yn aros o hyd o'r oes pan oedd yr hen blas yn fynachdy lle byddai'r mynachod yn aros ar eu ffordd i Ystrad Fflur.



Ar ôl y prynhawn braf hanesyddol yma a'r cerdded brwd yn ôl i'r ceir ger y llyn, roedd pawb yn barod i'r te a'r lluniaeth hyfryd oedd wedi ei baratoi gan Eleri nôl yn y neuadd yn Llanfair. Diwrnod o brofiadau unigryw a diolch i Sally ac Alan am ei drefnu. Diolch hefyd i Eleri am y bwyd ac i unrhyw un arall a fu'n helpu.

Gwellhad Buan

Estynnwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Meinir Miller, Cysgod y Coed sydd newydd ddychwelyd adref o ysbyty Bronglais ar ôl cael llawdriniaeth. Edrychwn ymlaen i'ch gweld wedi llwyr wella a nôl yn ein plith yn fuan. Hefyd yr un dymuniadau i Iris Quan sydd yn ysbyty Bronglais ar hyn o bryd. Rydym yn edrych ymlaen at eich gweld adre yn fuan ac yn teimlo'n well.

Llongyfarchiadau

Hoffwn estyn llongyfarchiadau cynnes i Dr. Dolly Yang Metcalf ar ennill doethuriaeth am ei gwaith yn astudio dogfennau meddyginiaeth Tsieineaidd. Rydym i gyd yn ymfalchïo yn dy lwyddiant ar ôl gweithio mor galed.

Golffiwr o fri!

Llongyfarchiadau i Rhydian Quan, Sŵn yr Afon, ar ennill chwaraewr y flwyddyn yng Nghlwb Golff Cilgwyn ac yntau ond yn ddeg oed. Mae ei dad yn hyfforddi yn dda! Pob lwc i ti i'r dyfodol.

Enw: Sioned Douglas

Oed: 23

Pentref: Llambed

Gwaith: Hyfforddwraig Sgïo

Partner: Steffan

Teulu: Mam, Dad a Rhys

Unrhyw hoff atgof plentyndod. Chwarae ‘den’ ar fferm mam-gu a tad-cu gyda Rhys, Steffan a Ffion.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn. ‘The Wild Thornberrys’

Yr eiliad o’r embaras mwyaf. Canu’r gân Everybody Needs Somebody to Love gan The Blues Brothers yn yr eisteddfod ysgol gydag Elin Gwyther!

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn. Bod yn gwrtais bob amser.

Taset ti’n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti’n dweud wrth dy hun yn 16 oed? I gymryd pob cyfle.

Y CD cyntaf a brynest di erioed? Aquarium by Aqua!!

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun? Erioed wedi cael row!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus? Treulio amser gyda theulu a ffrindiau

Beth yw dy lysenw? Doug

Beth yw’r peth gorau am dy swydd bresennol? Bod allan yn yr awyr iach bob dydd a thrwy’r dydd.

Beth yw’r peth gwaethaf am dy swydd bresennol? Bod allan yn yr awyr iach bob dydd a thrwy’r dydd pan mae’r tywydd yn wael!

Pa mor wyrdd wyt ti? Rwyf yn ailgylchu cymaint ag y gallaf.

Pa iaith wyt ti’n defnyddio gyntaf? Cymraeg

Sut fyddet ti’n gwario £10,000 mewn awr? Prynu 2 diced awyren i Steffan a



fi i deithio o amgylch y byd.

Beth sy’n codi ofn arnat? Mynd yn hen!!

Pryd chwydaist ti ddiwethaf? Ddim yn cofio y tro dwetha’ ‘nes i chwydu.

Pryd est ti’n grac ddiwethaf? Rwyf yn cael ‘road rage’ yn aml iawn!

Beth oedd y celwydd diwethaf i ti ddweud? Methu dweud celwydd, mae’r wyneb yn dangos y cwbl!

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti’n broffesiynol? Graddio o brifysgol Metropolitan Caerdydd gyda 2:1 yn y cwrs Sport Development.

Wyt ti’n difaru rhywbeth? Does dim pwynt difaru pethau mewn bywyd

Beth yw’r cyngor gorau a roddwyd i ti? ‘Treat others how you want to be treated’

Disgrifia dy hun mewn tri gair. Hapus, caredig a llawn hwyl

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti? Anspargeithus!

Pa gar wyt ti’n gyrru? Mini Cooper S

Beth yw dy hoff wisg? Leggings a hoodie!

Gyda phwy fyddet ti’n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell? Bear Grylls!

Beth yw’r cludfwyd o’th ddewis? Chinese

Beth yw dy ddiod arferol? Cider black

Beth yw cynnwys dy oergell di? Sudd Oren

Beth wyt ti’n ei ddarllen? Rydw i’n hoffi darllen llyfrau ‘Psychological Thrillers’

Beth yw dy hoff arogl? Porfa newydd ei dorri!

Sut wyt ti’n ymlacio? Darllen

Pa wefan wyt ti’n ymweld â hi

fwyaf aml? Instagram

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook? 856

Hoff gân ar dy ipod? All I Am- Jess Glynne

Pa raglenni sydd ar dy Sky+? Hollyoaks a rhaglenni realiti

Pwy yw’r person enwocaf ar dy ffôn symudol? Dewi Pws

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf? ‘The Greatest Showman’

Pa un peth fyddet ti’n newid am dy hun? Bod yn fwy amyneddgar pan yn dreifo!!

Heblaw’r teulu, beth fyddet ti’n achub petai’r tŷ’n llosgi’n ulw? Celt y ci

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf? Y car

Pa beth wyt ti’n ei drysori fwyaf? Lluniau o fy mhentyndod

Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnat ti? Mam-gu oherwydd dangosodd i fi’r pwysigrwydd o deulu.

Y gwyliau gorau? Awstralia am 3 wythnos gyda mam, dad a Rhys. Hefyd pan es i i Efrog Newydd gyda mam ar fy mhen-blwydd yn 21 oed. Ddim yn gallu dewis rhwng y ddau!

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw? Seland Newydd, Norwy a China

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain? Cerdded Cadair Idris, prynu tŷ a mynd ar safari yn Affrica.

Petai ti’n anweladwy am ddiwrnod, beth fyddet ti’n ei wneud? Chwarae triciau ar bobli!

Ble fyddi di mewn deng mlynedd? Dim ots ble y byddaf, dim ond fy mod yn hapus ac yn iach

Testun Cyfrinachau’r rhifyn nesaf: Steffan Jenkins, Llambed



Erbyn hyn, mae bron pob dinas yn cynnal gŵyl redeg flynyddol i'r miloedd, boed yn farathon neu'n hanner marathon, ac mae pob tystiolaeth yn awgrymu bod poblogrwydd yr achlysuron hyn yn cynyddu. Yn 1981 yr oedd tua 6,000 yn rhedeg marathon torfol cyntaf Llundain ac eleni roedd tua 25,000 yn rhedeg hanner marathon Caerdydd ar y 7fed o Hydref. Yn anochel, mae llawer o'r rhai sy'n ymgymryd â'r pellteroedd heriol hyn yn y fath ddigwyddiadau yn gymharol ddibrofiad. Felly, ynghyd â'r buddiannau sylweddol o safbwynt elusennau ac iechyd cyffredinol, mae peryglon ac elfen o risg yn yr antur a mater o dristwch mawr oedd marwolaeth dau redwr ifanc wedi ras Caerdydd eleni. Roedd 13 o redwyr Clwb Sarn Helen yn y ras a gwnaeth Dawn Kenwright yn ardderchog i ennill dosbarth y menywod dros 60 gan redeg y 13.1 milltir mewn 1 awr 41 munud a 43 eiliad. Y cyntaf o redwyr y clwb i orffen oedd Steven Holmes (1.29.30) gyda Tomos Morgans (1.31.47) ac Eleri Rivers (1.42.39) yn dilyn.

Llwyddodd Donna Davies i wella ar ei hamser yn hanner marathon Efyrrwy rai wythnosau'n ôl gyda record bersonol (1.52.46.) Llongyfarchiadau i'r gweddill hefyd - Martin Darby (2.4.51) Eirlys Evans (2.13.47) Jane Holmes (2.36.19) Emma Gray (2.36.19) Jane Burtenshaw James (2.30.13) a Rowena Greasley (3.4.51.).

Gwell gan rai yw rhedeg ras allan yn y wlad ymhlith llai o dyrfa ac aeth Ken a Jenny Caulkett i redeg hanner marathon Sir Benfro yn Dale ar y 30ain o Fedi - daeth Ken yn 7fed mewn 1 awr 24 munud 40 eiliad gyda Jenny'n gorffen mewn 2.24.30. Un arall o rasys cyfarwydd yr Hydref yw Ras y Ddau Begwn yn Aberystwyth. Cynhaliwyd y ras hon dros gwr o ryw 7 milltir i fyny Pendinas a Constitution Hill ar y 14eg o Hydref ac roedd 13 o aelodau'r clwb ymhlith y 105 o redwyr ac un ohonynt, Sion Price, oedd yr enillydd mewn 45 munud 45 eiliad. Y tu ôl iddo daeth Simon Hall yn 9fed (52.14) gyda Meic Davies (y 4ydd dyn dros 40 mewn 53.52) a George Eadon (54.44) yn dilyn yn glos. Dee Jolly oedd yr ail fenyw i orffen (55.28) - un eiliad o flaen Mark Rivers (y 6ed dyn dros 40.) Cafodd Dawn Kenwright (yr ail fenyw dros 55 mewn 65.23) a Calvin Williams (y 3ydd dyn dros 50 mewn 60.44) ganlyniadau da. Llongyfarchiadau hefyd i'r gweddill - Eilir Evans (63.13) Michael Taylor (64.26 a'r 5ed dyn dros 50) Donna Davies (70.20) Pamela Carter (73.05) a Nicola Williams 73.23.)

Ar yr un diwrnod, aeth Nigel Davies i redeg 26.2 milltir marathon Caer Efrog gan ddod yn 197 allan o 1500 mewn 3 awr 4 munud a 24 eiliad - o fewn 2 funud i'w amser gorau am y pellter. Bydd nifer o'r rhedwyr yn rhedeg marathon Eryri ar y 27ain o Hydref - pob lwc iddyn nhw.

Gwobrau Mudiad Meithrin

Cyhoeddi Enillwyr Trydedd Seremoni Gwobrau Mudiad Meithrin

Bu Seremoni Gwobrau Mudiad Meithrin yn llwyddiant mawr eto eleni. Roedd yn gyfle i gydnabod a dathlu'r gwaith da sy'n cael ei wneud ar lawr gwlad. Cynhaliwyd y seremoni eleni yn y Neuadd Fawr, Campws Prifysgol Aberystwyth ar Ddydd Gwener 19 Hydref gyda'r cyflwynydd tywydd Chris Jones yn arwain y seremoni.

Derbyniodd y Mudiad Meithrin dros 350 o enwebiadau staff a gwirfoddolwyr Cylchoedd Meithrin, Cylchoedd Ti a Fi a meithrinfeydd dydd ar gyfer gwobrau deg categori eleni.

Meddai Leanne Marsh, Pennaeth Datblygu Gwasanaethau Mudiad Meithrin:

"Roedd y Seremoni Wobrau'n rhoi cyfle i ni'r Mudiad Meithrin gydnabod a rhoi diolch i'n staff a'n gwirfoddolwyr ar lawr gwlad. Maent yn haeddu'r clod a'r holl sylw am eu gwaith rhagorol."

Cyfarfu'r panel gwobrwy ddiwedd mis Mai a dewiswyd y tri uchaf ym mhob categori gan eu gwahodd i gyd i ddod i'r seremoni arbennig hon a gafodd ei chynnal am y trydydd tro yn dilyn y llwyddiant ysgubol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Meddai Dr Gwenllïan Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin:

"Roedden ni'n gobeithio y byddai pobl yn manteisio ar y cyfle i enwebu cylch lleol neu feithrinfa sy'n haeddu cydnabyddiaeth ac roeddem wedi gwirioni ein bod wedi derbyn cannoedd o enwebiadau! Mae'n ffordd hyfryd i staff a gwirfoddolwyr gael eu cydnabod trwy gael eu henwebu gan rieni'r plant sy'n eu gofal."



Cylch Ti a Fi Tŷ'r Teulu, Llanybydder: Jayne Thomas ar ran Cylch Tŷ'r Teulu

Plant mewn Angen

Bydd Beti a Goronwy a'r tîm yng Nghapel Sant Thomas, Cwmins, Llanbed ar Ddydd Gwener, Tachwedd 16, 2018 o 10 o'r gloch tan 5.30pm i dderbyn eich cyfraniadau. Galwch mewn.



LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
 - Symud celfi
 - Unrhyw waith
- o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
 - Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder SA40 9RL

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor - ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?

Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad profesiynol, gallaf eich cynorthwyo!

Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:

Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol
Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref


Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com



Swdocw

Sut i chwarae - Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Erw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: PeiBag Siopa Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i'ch enw ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn

			6			1	5				
1			8	5		7					
8			7					3			
6			1								
	3							7			
						5				2	
	2					9				3	
		9		6	8					7	
1	6			3							

Swdocw Hydref

Llongyfarchiadau i:

Betsy Morgan, Penybanc, Rhydaman, a diolch i bawb arall am gystadlu: Sian Blake, Gorsgoch; Joan Stacey, Ffaldybrenin; Richard Evans, Olmarch; Megan Lewis, Cwmann; Bethan Williams, Llanybydder; John Bevan, Felinfach; Hugh Evans, Llanybydder; Avril Williams, Cwmann a Dai Jones, Alltyblaca.

9	1	6	3	5	8	4	2	7
8	7	5	2	4	6	1	9	3
4	2	3	7	9	1	5	6	8
6	3	9	8	2	5	7	4	1
1	8	7	4	6	3	9	5	2
2	5	4	1	7	9	3	8	6
5	9	2	6	1	7	8	3	4
7	4	8	9	3	2	6	1	5
3	6	1	5	8	4	2	7	9

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHAW,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbed

☎ 01570 422517 post@adve.co.uk



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llanbed

☎ 01570 423135
☎ 07811917799 /
07968821035
✉ mwnciffwnci@hotmail.com

MIS y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Barod am yr Eisteddfod?

Mae'r Eisteddfod Fawr ar ei ffordd i Geredigion am y tro cynta' ers mwy na chwarter canrif ac mae'r bwlch yna, ynddo'i hun, yn destun syndod.

Er mai siom oedd hi na chafodd safle ei ddewis yn ardal Clonc, mi fydd hi'n braf gweld yr hen garafan fawr ddiwylliannol yn parcio am wythnos ar gyrion Tregaron. Ac mae'r trefnwyr yn pwysleisio ei bod hi'n Eisteddfod i'r sir gyfan.

Erbyn hyn., mae'r swyddogion wedi'u dewis a llawer o'r pwyllgorau yn eu lle; maen nhw eisoes wedi dechrau gweithio. Mi fydd y galw am godi arian yn dechrau'n fuan iawn a hynny, gobeithio, yn sbarduno llond lle o weithgarwch Cymraeg.

Mae'r hen wyl wedi newid lot ers pan fuodd hi yn Gelli Angharad Aberystwyth yn 1992; yn un peth, mae hi'n llawer mwy o wyl bellach nag o gyfarfod cystadleuol. Ac roedd hynny ar ei fwyaf amlwg yng Nghaerdydd eleni lle'r oedd llawer o bobol wedi tyrru heb sylweddoli hyd yn oed fod yna gystadlu'n digwydd.

Yr her i bob ardal bellach fydd parhau efo elfen o'r eisteddfod agored honno, heb ffens o amgylch y maes a heb orfod talu i fynd i grwydro'r stondinau a'r pebyll llai.

Yng Nghaernarfon, maen nhw eisoes yn sôn am gynnal pethau yn y Maes - dyna'r enw ar brif sgwâr y dre'. Mi fyddai maes yn y Maes yn taro.

Ond er mor wych ydi sgwâr Tregaron ac er mor hoff ydi Henry Richard o ganu ac adrodd a phetai felly, mi fyddai'n amhosib cynnal eisteddfod ddi-ffens yn fan'no. Mi fyddai'n llai posib fyth mewn tre' fel Llanbed a dwsinau o drefi eraill.

Y gamp felly fydd agor y maes traddodiadol a'i wneud yn fwy croesawgar a lliwgar a bywiog i bawb o bob cefndir. Ac efallai y bydd hi'n bosib caniatáu mynediad am ddim ar adegau arbennig.

Achos dyna oedd un o lwyddiannau Eisteddfod Caerdydd: fod miloedd o bobol wedi gallu taro heibio i weld be oedd yn digwydd; pobol nad oedden nhw wedi bod ar gyfyl eisteddfod o'r blaen ac, yn aml, pobol nad oedd ganddyn nhw air o Gymraeg.

Cofiwch, mae modd gorliwio'r llwyddiant. Er bod yr Eisteddfod wedi estyn allan go brin fod holl drigolion Trebiwt a'r dociau wedi dechrau ffurfio corau cerdd dant yn lle grwpiau reggae a dawnsio'r ddawns flodau yn y strydoedd.

Ond mae yna her i ninnau yn yr ardaloedd yma. Fydd dim disgwyl i ni gysylltu â'r un math o grwpiau pobol ag a wnaethon nhw yng Nghaerdydd. Ond mae gyda ninnau ein poblogaethau ethnig hefyd, o wahanol fathau.

Dyna grêt fyddai gweld Pwyliaid a Romaniaid Dunbia a'u teuluoedd yn heidio i'r maes, neu'r myfyrwyr Tsieinaidd o'r brifysgol yn Llanbed yn cymryd rhan a rhoi blas yn ein gwyl ni o'u diwylliannau nhw.

Yn bwysicach fyth, mae'n gyfle i gyflwyno ein diwylliant ni iddyn nhw; mae'n rhy hawdd i bobol fyw yn yr ardaloedd yma heb ddeall beth sy'n digwydd yn Gymraeg o'u cwmpas nhw; mae'n bosib iawn y bydden nhw wrth eu bodd.

Ac, wrth gwrs, mae'r grŵp ethnig mwya' yn dod o'r ochr draw i Glawdd Offa. Mae'r Eisteddfod yn gyfle ardderchog i agor y drws ar ein diwylliant ni, gan agor llygaid llawer ac ysbrydoli rhai i ddod yn rhan o'r diwylliant hwnnw eu hunain.

Mae angen i'r gwaith hwnnw ddechrau ar unwaith hefyd; mi allai fod yn ysgogiad i bobol ddysgu Cymraeg a thrio dod yn ddigon rhugl ynddi i allu mwynhau un o ddigwyddiadau diwylliannol mwya' gwledydd Prydain.

Ond mae angen i'r gwaith barhau ar ôl i'r Eisteddfod ddiplannu hefyd. Mewn ambell ardal gymharol ddi-gymraeg, mae dyfodiad yr Eisteddfod wedi arwain at sefydlu ysgolion Cymraeg a rhoi hwb i addysg trwy gyfrwng yr iaith.

Ein fersiwn ni o hynny fyddai denu cannoedd o drigolion newydd yr ardaloedd yma i ymuno efo ni a dod yn rhan o fywyd Cymraeg Ceredigion. A dangos ei fod yn fwy na cherdd dant, hyd yn oed.

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llangybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

**WILLIAMS
& BOURNE**

CYFREITHWYR,
COMISIYNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llanbed**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yb - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

Gwasanaethau Coed Llanbed



Gwêl-y-Coed, Cwmann
Llanbed, SA48 8EL
01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.



Mawrth ym 1992
Agricultural Machinery

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewisc.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



**COMPASS
OFFICE
SUPPLIES**

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbed, Heol Tregaron,
Llanbed.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

**CANOLFAN ADDURNO
AA**

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cwmsychpant

Diolchgarwch

Yn ystod y mis cafwyd oedfa ddiolchgarwch yng Nghapel y Cwm ac roedd y lle yn gyfforddus lawn. Y Parch Wyn Thomas oedd yn llywyddu a chroesawyd y Parch Chris Bolton o Landysul atom unwaith yn rhagor fel ein pregethwr gwadd. Cafwyd ganddo annerchiad hynod o fywiog a sionc. Bu'n holi cwestiynau i'r plant a oedd yn bresennol a chafodd ymateb positif.

Wrth yr organ oedd Eleri Jenkins, Llaideri a diolchodd y Parch Wyn Thomas i bawb a oedd wedi troi allan ac i rieni'r Ysgol Sul am addurno'r Capel mor hyfryd a thymhorol.

Diolchgarwch yr Ysgol Sul



Yn flynyddol, mae plant Ysgol Sul Capel y Cwm yn cynnal oedfa i ddiolch am y cynhaeaf ac eleni roedd y capel yn llawn. Bu'r plant o 10 oed lawr i 3 oed yn cymryd rhan ac roedd yn bleser eu clywed yn llefaru a chanu gan drosglwyddo neges y cynhaeaf. Cafodd y Parch Wyn Thomas drafodaeth gyda'r plant ac roedd yr ymateb yn ffantastig gyda phob un yn cael dweud gair. Wrth yr organ oedd un o'r mamau sef Carys Griffiths-Jones, Fronddu ac fe aeth y casgliad i goffrau'r Ysgol Sul. Diolchodd y Parch Wyn Thomas i bawb a oedd wedi cyfrannu at lwyddiant y prynhawn ac i bawb am droi allan i dystio oedfa hyfryd iawn gan aelodau Ysgol Sul Capel y Cwm.

Noson Tip-It

Nos Wener, Hydref 26ain gwelwyd festri Capel-y-Cwm yn llawn bwrllwm pan gynhaliwyd noson Tip-It er mwyn codi arian i goffrau'r Capel. Braff gweld 9 tîm yn cystadlu yn erbyn ei gilydd o bob oedran!! Roedd y chwarae yng ngofal John Jones ac Eleri Jenkins.



Enillwyr y Tip-It oedd Lois Jones, Sian Jones ac Elen Davies ac yn ail iddynt oedd Meurig Evans, Wyn Thomas a Dylan Davies.

Tynnwyd raffl fawr yr Hydref a'r enillwyr oedd 1. Beilgwyn 2. Guto Davies, Maesnewydd. 3. Ffion Davies, Castell Newydd Emlyn 4. Richard, d/o Optegydd Llambled 5. Hefin Jenkins, Cathal.

Diolchodd y Parch Wyn Thomas i bawb am eu cefnogaeth diflino unwaith yn rhagor er budd y Capel.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Mark ac Eleri Rivers a'r bechgyn, Tyngrug Cottage ar golli mamgu a hen-famgu annwyl a oedd yn byw yn Llanwnnen.

Pencarreg

Diolchgarwch am y Cynhaeaf

Eglwys Sant Padrig
Tra pery'r ddaear, ni pheidia pryd hau a medi, oerni a gwres, haf a gaeaf, dydd a nos.

Nos Sul, Hydref 7fed roedd cynulleidfaf gref, tua chwedeg o bobl wedi ymgynnull i ddathlu a diolch am y cynhaeaf. Roedd yr eglwys hynafol yn rhyfeddol o hardd wedi ei haddurno â blodau, ffrwythau a llysiau.

Ein ficer Will Strange oedd arweinydd y cwrdd a'r Ficer gwadd oedd Dorian Davies. Braff oedd gweld cynifer o blant yn gwrando'n astud ac yn mwynhau'r neges o ddiolchgarwch.

Cyn troi am adre roedd te a gwledd o gacennau i bawb wedi ei baratoi gan famau'r pentref.


Diolch i Ceinwen Evans, Felin-fach am ganu'r organ ac i'r gynulleidfaf, a oedd mewn lleisiau da, am lenwi'r eglwys gyda chanu hyfryd.

Rhifyn Rhagfyr
yn y Siopau
6 Rhagfyr
Erthyglau, Newyddion
a Llundain i law erbyn
26 Tachwedd

Clwb Clonc

Tachwedd

£25 rhif 517 :
Mrs Lyn Young,
Tanyfron, Heol Llanfair, Llambled.
£20 rhif 202 :
Sioned Hatcher,
Abernant, Llanwenog.
£15 rhif 269 :
Mrs Pat Jones,
Glanhathren, Cwmann.
£10 rhif 291 :
Ann Jones,
Clifton, Pencader.
£10 rhif 297 :
Gwenllian Llwyd Jones,
Croesor, Cwmann.
£10 rhif 357 :
Gareth, Cerys a Betsan Lloyd,
Hafancletwr, Talgarreg.
£5 rhif 67 :
Mrs Ann Davies,
Fferm Olmarch, Llangybi.



Plymio a Gwresogi
DANIEL DOUGHTY
Plumbing & Heating Services

Gas/LPG & Oil Services

Renewables • Installation
Maintenance • Breakdowns
Boiler Servicing • Sprinklers

07969 289679
d.doughtyplumbing@gmail.com



LKitchens Ltd

CELFY CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR

SGWÂR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER

01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

E.JONES
PLUMBING & HEATING LTD

01570 480 108

07811 701 857

office@ejonesplumbingandheatingltd.co.uk

GWASANAETHAU YSWIRIANT
FUW

Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW

21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
"Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.

PHILIP JONES
FINANCIAL SOLUTIONS
Agricultural, Construction and Business Finance

Cyllid Amaethyddol, Adeiladu
& Busnes • Offer Amaethyddol
ac Adeiladu • Ceir a Cherbydau
Masnachol • Cyfleusterau
Amddiffiniad Offer Newydd a
Ddefnyddir

Rheolwr Ardal: Bedwyr Davies

07757 668339 / 01544 340562

bedwyr@pjfinancialsolutions.co.uk

www.pjfinancialsolutions.co.uk

Authorised and regulated by the
Financial Conduct Authority No FRN 690293

Ysgol Bro Pedr Campws Iau

Cynhaliwyd cystadlaethau ar draws y campws ar ddiwrnod Cenedlaethol barddoniaeth a bu'r Pwyllgor Cymreictod yn brysur yn beirniadu'r holl limrigau a lluniadu'r farddoniaeth.



Ar ddiwrnod Shw mae bu disgyblion ar draws y campws yn cyfarch ei gilydd yn y Gymraeg ac yn bwyta Picau ar y maen a dosbarthu sticeri yn ogystal â gwneud amryw o weithgareddau diddorol yn y dosbarthiadau. Diolch i'r Pwyllgor Cymreictod am eu cymorth, i Gwendoline yn y gegin gynradd am goginio Picau ar y maen, i'r gegin Hŷn a phopty Marklane am eu cyfraniadau.

Diolch i Anwen Eleri a Tomos Gwynedd am ddod i wneud cyflwyniad ar wersylloedd yr Urdd gyda disgyblion blynyddoedd 7,8 a 9 - dwi'n siŵr y bydd nifer o'n disgyblion yn achub y cyfle i fynd ar ymweliad â'r gwersylloedd yn y dyfodol agos.

Cafwyd diwrnod o gyflwyniadau hynod ddiddorol ac addysgiadol yn ystod diwrnod Addysg Bersonol a Chymdeithasol - diolch i Nerys Beaumont am drefnu ac i'r darparwyr i gyd a ddaeth i mewn atom. Cafwyd gwasanaethau hyfryd gan Mrs Patterson, a Miss Sarah - diolch yn fawr am roi o'ch amser prin i ddod atom.



Ar ddiwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd cafwyd llawer o weithgareddau hwylus gyda phawb yn mwynhau ymweliad gan Mr Urdd - casglwyd swm sylweddol o £630 ar draws y campws tuag at waith yr Urdd yn lleol a diolch i bawb am eu cyfraniadau hael.



Bu nifer o ddisgyblion blwyddyn 4 ar daith breswyl i Llain a diolch i'r staff a fu'n cynorthwyo - Mr K Jones, Mr H Roderick, Mrs I Roberts a Miss N Jones ac i Mr W John am drefnu. Cafwyd llawer o hwyl a sbri yn gwneud amryw o weithgareddau megis wal ddringo, canŵio, abseilio.

Hyfryd oedd cael croesawu Mrs Delor James i'r ysgol lle bu yn datblygu stori gyda disgyblion ysgolion clwstwr Bro Pedr - cewch gyfle i'w darllen yn Clonc.

Bu blynyddoedd 5 a 6 ail-iaith ar daith i'r Llyfrgell Genedlaethol a chael cyflwyniadau diddorol tu hwnt ar Hanes Tryweryn a thaith o gwmpas y llyfrgell. I ddathlu diwrnod T Llew Jones bu nifer o'r disgyblion yn darllen

darnau o'i waith ac yn dysgu ffeithiau amdano.

Yn nhwramaint pêl-droed Dyffryn Cledlyn, gwnaeth yr ysgol yn arbennig o dda - bechgyn blynyddoedd 5 a 6 a merched yr ysgol yn ennill y twrnamaint a bechgyn blynyddoedd 3 a 4 yn cyrraedd y rownd derfynol. Diolch yn fawr i bawb a fu'n hyfforddi - Mr W John, Mr H Roderick a Mr M Davies.

Daeth Rhodri Francis o Cered i sôn wrth y plant am gystadleuaeth Minecraft i ysgolion y sir - gobeithio y bydd pawb yn bwrw ati nawr i gystadlu.

Cafodd nifer o ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 y cyfle i ymuno mewn gŵyl rygbi gydag ysgolion y cylch yng nglwb rygbi Llambod yn ddiweddar - diolch i O Bonsall am drefnu.



Diolch i bawb a gyfrannodd focsys Nadolig tuag at Apêl Romania - casglwyd bron i 70 bocs o'r campws cyfan.



Bu côr yr ysgol yn perfformio yng ngwasanaeth Ennyd Gobaith yn Eglwys Sant Pedr - diolch iddynt am eu cyfraniad ac i Miss S Davies a Mrs Ll Jones am hyfforddi.

Llongyfarchiadau i dimau rygbi'r ysgol ar wneud mor dda yng nghystadleuaeth yr Urdd- gwnaeth y bechgyn gyrraedd y rownd gynderfynol a'r merched wedi gwneud yn hynod dda yn ennill un, cael dwy gêm gyfartal a cholli un. Diolch i Mr G Thomas am hyfforddi ac i Mrs S Evans am ei chymorth.

Bu disgyblion blynyddoedd 1 a 2 yn cael prynhawn o flas gwahanol fathau o chwaraeon megis beiciau balans, sgiliau rygbi a pêl-droed - diolch am y cyfle.

Cafodd holl ddisgyblion yr ysgol y cyfle i wyllo sioe bypedau am borthi'r Pum Mil gan griw'r Bible Explorers a diolch iddynt am ddod atom eleni eto. Edrychwn ymlaen at y perfformiad nesaf.

I ddathlu diwedd y thema Hapusrwydd cafwyd disgyblion blynyddoedd 1 a 2 y cyfle i drefnu a chynnal parti yn yr ysgol. Roedd pawb yn edrych yn hyfryd iawn yn eu dillad a bu'r plant yn mwynhau byrbrydau iach a dawnsio yn y disgo. Diolch i Mrs N Young am drefnu ac i'r staff i gyd am eu cymorth.



Daeth Di O Keefe a Lizzie Clark i'r Uned dan 5 i wneud cyflwyniad a helpa drysor ar ddraenogod fel rhan o thema'r hydref. Dysgwyd nifer o ffeithiau diddorol a diolch iddynt am roi o'u hamser prin i ddod atom.

I gloi'r hanner tymor, daeth Mrs Delyth Morgans Phillips atom i gynnal Cwrdd Diolchgarwch. Diolch yn fawr iawn i Delyth am y cyflwyniad hyfryd a'r neges glir - gwerthfawrogn hyn yn fawr ac edrychwn ymlaen at ei chroesawu atom eto yn y dyfodol.

Bro Pedr - Campws Hŷn

Dyma rai o ddisgyblion y Meithrin a rhai aelodau'r pwyllgor Cymreictod yn mwynhau gyda Mr Urdd ar ddydd Gwener, Hydref 12fed wrth i ni godi arian ar gyfer mudiad yr Urdd yng Ngheredigion. Bu'r disgyblion yn gwisgo dillad coch, gwyn a gwyrdd i godi arian, diolch i bawb am gyfrannu ac i Mr Urdd am alw ac i Rhydian am fod yn "chauffeur" iddo!



Dathlu Diwrnod Shw mae yn Ysgol Bro Pedr - Pwyllgor Cymreictod yn annog eraill i siarad Cymraeg a phawb yn mwynhau bwyta Picau ar y maen

Bu disgyblion Bro Pedr yn dathlu diwrnod Shwmae ar ddydd Llun, Hydref 15fed. Diwrnod i ddathlu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Cafwyd cyflwyniad gwyb gan Anwen Eleri a Tomos Gwynedd o'r Urdd, bwyta picau ar y maen a waffles, peintio lluniau o Seren a Sbarc a dosbarthu sticeri. Diwrnod arbennig!

Cafwyd noson agored lwyddiannus iawn i ddisgyblion blwyddyn 6 a'u rhieni ar nos Fawrth, Hydref 16eg. Ar ôl gair o groeso gan Mrs Wyn a'r prif swyddogion, cafodd y disgyblion a'u rhieni gyfle i fynd ar daith o amgylch yr ysgol i weld dosbarthiadau amrywiol. Diolch yn fawr i'r athrawon a'r chweched am y sesiynau diddorol, gan gynnwys sesiwn yn chwarae gemau sillafu ar yr ap Atebol ac arbrofion gwyddonol gyda'r adran wyddoniaeth. Rydym am ddiolch i bawb oedd ynghlwm â'r noson ac yn enwedig i Mrs Dafis am yr holl waith paratoi. Edrychwn ymlaen at eich gweld chi i gyd yn ymuno â ni ym mis Medi 2019.

Bu'r llyfrgellwyr yn brysur iawn ym mis Medi wrth iddynt drefnu a chynnal Ffair 'Llyfrau Scholastic'. Trwy gydol yr wythnos, bu'r disgyblion



yn helpu eraill i ddewis a phrynu llyfrau. Llwyddwyd i godi gwerth £315 i'w wario ar lyfrau am ddim o gwmni Scholastic. Da iawn chi! Maent wedi

dewis ystod eang o lyfrau newydd i chi gael eu benthycu o'r llyfrgell.

Ym Mis Hydref, bu criw o ddisgyblion blwyddyn 8 a llond llaw o 'swogs' blwyddyn 12 ar daith i wersyll yr Urdd, Glan-llyn, ac yn cadw cwmni iddynt oedd Mrs Hedydd Thomas a Miss Hedydd Jones. Cafwyd amser anhygoel lle manteisiwyd ar bob cyfle i ymwneud â phob gweithgaredd gydag egni, brwdfrydedd, hwyl a pharch at eraill. Cafwyd llawer o hwyl a gwlychfa allan



ar y llyn. Lwcus bod pawb wedi dod â thywel. Bu'n daith ragorol lle gwelwyd pob un ar ei orau a bydd atgofion am daith lwyddiannus arall yn fythgofiadwy. Diolch i'r Urdd.

Ar ddydd Iau a dydd Gwener, Hydref 18fed a 19eg, cynhaliwyd diwrnod Palmantu'r Ffordd yn yr ysgol, lle bu disgyblion blwyddyn 11 yn mynychu amrywiaeth o sesiynau i'w paratoi ar gyfer y dyfodol, coleg, prifysgol a'r byd gwaith. Diolch yn fawr iawn i bawb oedd ynghlwm â'r

diwrnod ac i bawb oedd wedi cynnal cyfweiliadau gyda'r disgyblion. Sgiliau hanfodol i'r dyfodol!



Llongyfarchiadau i Ysgol Bro Pedr am dderbyn Gwobr Efydd y Siarter Iaith 2017-2018. Yn y llun gwelir rhai o aelodau'r Pwyllgor Cymreictod a Mrs Llinos Jones, cydlynnydd.



Pwyllgor Cymreictod Ysgol Bro Pedr 2018 - 2019.



Rydym yn hapus dros ben i gyhoeddi bod Ysgol Bro Pedr wedi cwblhau rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, wedi'i achredu gan ASDinfoWales. Diolch i'r holl staff dysgu a chefnogi, tîm gweinyddu, goruchwylwyr amser cinio a llywodraethwyr sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant ymwybyddiaeth awtistiaeth a'r cynllun ardystio ac i'r disgyblion sydd wedi cymryd rhan yn y gwersi ymwybyddiaeth awtistiaeth ac sydd wedi arwyddo'r siarter. Llongyfarchiadau i'n Pencampwyr Awtistiaeth sydd wedi arwain y ffordd!

Llangybi a Betws

Merched y Wawr Y Dderi

Cyfarfod cyntaf y Dderi oedd ymweliad â Chrochendy yn Llanfair. Yno, cawsom groeso cynnes iawn gan y perchnogion ac arddangosfa arbennig o wahanol nwyddau yr oeddynt yn cynhyrchu ac esboniadau am y gwahanol brosesau o wneud yr eitemau. Diolchwyd iddynt gan y llywydd Deborah Jones. Ymlaen wedyn i gartref ein llywydd ac yno cawsom de bendigedig a phawb wedi bwyta ei wala.

Rhoddwyd y raffl gan Mair Spate, Eleanor Evans a Rota Jones. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch am y croeso a'r wledd fendigedig gan Gwyneth Jones.

Teulu o Dregaron oedd y gwahoddedigion yng nghyfarfod mis Hydref. Cawsom fraslun o hanes sut y bu i'r Swyddfa Bost gau ar ôl bron i hanner can mlynedd o wasanaeth i'r gymuned ac am y fenter o agor siop newydd - Anrhegaron gan David a Nerys Bennett. Daethant â nifer o wahanol bethau mae'r siop yn eu gwerthu a chawsom gyfres o ddarluniau gan Nerys yn dangos datblygiad y Siop a'r nwyddau a werthir a'r gwaith ysgythrui mae David yn ei wneud ar gais cwsmeriaid. Bu'r bechgyn yn diddanu'r aelodau trwy ganu a llefaru. Diolchwyd yn gynnes iddynt gan y llywydd Deborah Jones am noson fendigedig a gofir am hydoedd. Eu harddangosfa nhw oedd y Stondin orau yn Sioe Llamed.

Rhoddwyd y Raffl gan Irene Lewis ac fe'i henillwyd gan y brodyr Bennett a Gwyneth Jones. Dymunwyd adferiad buan i'r aelodau a oedd yn sâl. I ddiweddu'r cyfarfod, cafwyd paned o de a bisgedi yn rhoddedig gan Mary Jones a Mair Spate.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Tachwedd 20fed a disgwylir Meinir Green i'n hannerch.

Hamdden

Cyfarfu'r aelodau yn Ysgol Y Dderi ar Hydref 5ed. Croesawyd hwynt gan ein llywydd Gwen Lewis. Y gŵr gwadd oedd Pete Cornelius ac fe gawsom ganddo araith ddiddorol yn ymwneud â'r Rhyfel Byd cyntaf ac fe eglurodd sut y daeth i ysgrifennu ei lyfr 'Poppy.' Fe ddaeth hefyd ag eitemau yn ymwneud â'r adeg yma. Diolchwyd iddo yn gynnes iawn gan Gwen Lewis am brynhawn mor ddiddorol a hanesyddol.

Roedd un aelod yn dathlu ei phen-blwydd ac fe ddaeth â chacen i'w rhannu rhwng yr aelodau. Canwyd Pen-blwydd Hapus a rhoddwyd carden iddi i gofio'r achlysur. Ar ddiwedd y cyfarfod, cafwyd te a bisgedi yn rhoddedig gan Janet a Raymond Farrow.

Enillwyr y raffl oedd Maisie Morgans, Barry Williams, Maureen Morgans, Mair Spate, Wendy Davies, Sally Davies, Raymond Farrow, Rita Jones a Peter Cornelius. Etholwyd Tegwyn Cornelius yn Is-Lywydd. Derbyniwyd awgrymiadau ble i fynd i gael ein Cinio Calan. Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 9fed pan fydd arddangosfa goginio gan Mrs Rhonwen Thomas.

Adferiad

Dymunir adferiad buan a llwyr i bawb a fu'n sâl adref ac wedi derbyn llawdriniaeth mewn gwahanol ysbytai.

Ysgol Y Dderi

Fel rhan o'u thema Coedwig Cymru bu disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn ymweld â Longwood. Daeth Becky Hulme i gwrdd â ni a chawsom ddiwrnod arbennig iawn yn dysgu am gynefinoedd gwahanol greaduriaid ac yn arbennig am y wiwer goch sydd dan fygythiad. Un o'r gweithgareddau hyfryd oedd casglu pecyn bwyd i'r wiwer goch – dyna beth oedd hwyll! Bu'r disgyblion hefyd yn efelychu gwaith yr arlunydd Tim Pugh yn defnyddio cynnyrch naturiol y goedwig.



Meddygon Medrus yw thema blwyddyn 5 a 6 yn ystod yr hanner tymor yma. Cawsom groeso arbennig yn y Gerddi Botaneg yn dysgu am nodweddion llesol gwahanol blanhigion. Yna aethom i Lyn y Fan Fach gan wrando ar hanes chwedl hudolus ar lan y llyn. Roedd yn ddiwrnod braf ac roedd y golygfeydd yn syfrdanol. Ymweliad â Chanolfan Myddfai wedyn a thaith o gwmpas yr eglwys gyferbyn â charreg fedd un o ddisgynyddion

Meddygon Myddfai. Mae'r dosbarth wedi bod yn brysur iawn ers hynny yn cynhyrchu canhwyllau oren, balm gwefusau mintys a lafant, eli Melyn Mair a sawr dysgu. Mi fydd y cyfan ar werth yn ein Ffair Nadolig.



Bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn Eglwys yr Holl Saint yng Nghellan yn ddiweddar i ddysgu am hanes yr addoldy hynafol ac am y gwaith atgyweirio diweddar. Diolch i John Metcalfe am ddysgu'r hanes i'r plant ac i Granville am ddangos i'r plant beth oedd y broses wrth atgyweirio'r eglwys. Mae'r plant wedi creu a dylunio clustogau penlinio wedi eu hysbrydoli gan y gwaith celf arbennig sydd ar y nenfwd.

Ar ddiwrnod barddoniaeth y byd bu plant yr ysgol gyfan yn dathlu. Y Border Bach, Dawns y Dail, Y Saith Cysgadur a Ffrindiau oedd y darnau arbennig a ddewiswyd i fynd gyda'n themâu. Cawsom hefyd ymweliad gan Ben Lake AS ar y diwrnod i sôn am ei waith yn Nhŷ'r Cyffredin, Llundain ac ysbrydolwyd ein Llywodraethwr Mr Odwyn i gyfansoddi cerdd!

I Ysgol y Dderi daeth Ben yn ei dro
A chael cwmni hyfryd disgyblion y fro,
Bu'n siarad ac ateb cwestiynau di-ri
Cwestiynau synhwyrol, gan un cafodd dri!

Ar ôl iddo ddiolch am y cyfle i ddod,
Bu'r plant wrthi'n canu – haeddianant ein clod!
Lleisiau anhygoel gan yr ysgol i gyd
Ieuencid gobeithio ddaw â heddwech i'r byd

Daeth Tim ac Angie i'r ysgol i helpu blwyddyn 3 a 4 i baratoi Gwledd y Goedlan yn yr ysgol. Taniwyd y ffwrn fara allanol yn y bore bach ac erbyn amser cinio roedd y pitsas mwyaf bendigedig yn cael eu cynhyrchu. Bu'r plant hefyd yn gwneud sudd afal ffres drwy ddefnyddio afalau o goedlan yr ysgol. Blasus iawn. Diolch o waelod calon i Tim ac Angie am roi o'u hamser a'u harbenigedd.

Mae Mr Eryl Jones, Mr Heulyn Roderick a Mrs Delor James wedi cychwyn ar brosiect cyffrous i godi safonau llythrennedd a rhifedd ysgolion y cylch dan nawdd ERW. Edrychwn ymlaen at gydweithio'n hapus gyda phawb.

Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dathlu diwrnod Navrati yn yr ysgol yn ddiweddar sef gŵyl yr Hindŵaidd. Bu'r plant yn dysgu'r pwysigrwydd o helpu'n gilydd ac i fod yn ffrind i bawb, wrth ganu, dawnsio a chreu breichledau cyfeillgarwch.

Diolch i PCSO Eleri a PCSO Iona am ddod i'r ysgol i gynnal gweithdy arbennig yn sôn sut i gadw'n ddiogel dros Galan Gaeaf a noson Tân Gwylt. Negeseuon pwysig iawn.

Dathlwyd Diwrnod T Llew Jones ar yr 11eg o Hydref sef diwrnod pen-blwydd y bardd ac awdur. Bu disgyblion Blwyddyn 1 a 2 ar helfa Twm Siôn Cati a bu'r disgyblion hŷn yn creu wyddor T Llew.



Casglwyd arian tuag at yr Urdd trwy wisgo dillad coch, gwyn a gwyrd i'r ysgol. Uchafbwynt y dydd, heb os, oedd croesawu ein ffrind Mr Urdd i'n plith.

Llangybi a Betws

Bu disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn brysur yn helpu aelodau Eglwys Sant Cybi, Llangybi i addurno'r addoldy ar gyfer y dathliadau diolchgarwch. Casglodd y disgyblion fwyd i gyfrannu tuag at Fanc Bwyd Llanbed ac roedd y blodau a'r llysiau yn edrych yn hardd dros ben.

Cafwyd tri gwasanaeth o ddiolchgarwch gan ddisgyblion Ysgol Y Dderi eleni eto. Bu'r Cyfnod Sylfaen yn cynnal gwasanaeth yn Eglwys Sant Cybi, Llangybi, bu Cyfnod Allweddol 2 yn cynnal gwasanaeth yng Nghapel Caeronnen, Cellan ac yna daeth yr ysgol gyfan at ei gilydd yn yr ysgol yn y prynhawn i gynnal gwasanaeth i'r henoed. Roeddem yn falch iawn i weld cynifer o'n ffrindiau o Hafan Deg wedi dod i gefnogi. Darparwyd te bendigedig o fara brith, cacen lemwn a sgons (gyda jam a hufen wrth gwrs!) gan Glwb Coginio'r ysgol. Casglwyd £218 tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. Diolch am eich haelioni.



Aeth y dosbarth Meithrin a Derbyn i Fil-feddygfa Steffan yn ddiweddar i weld sut mae'r milfeddygon yn rhoi'r gofal gorau posib i'r anifeiliaid. Gwelwyd ci bach yn cael ei frechiad cyntaf, sut maent yn cymryd lluniau pelydr-x a'r ardal lawdriniaeth. Diolch o galon i nyrs Caroline am ei gwaith ac i Mrs Rhian Williams, un o'n rhieni am drefnu'r ymweliad.

Croeso cynnes i Owain Bonsall sydd wedi cychwyn ar ei swydd newydd fel swyddog datblygu rygbi yn y cylch. Trefnwyd Gŵyl Rygbi Tag i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yng Nghlwb Rygbi Llanbed yn ddiweddar. Hefyd, cynhaliwyd twrnament rygbi tag i ferched gan yr Urdd yng Nghlwb Rygbi Aberaeron. Roedd y timau wedi ennill, colli a chael gemau cyfartal. Profiadau da iawn.

Diolch i Mr Burgess am drefnu casgliad o flychau anrhegion wrth blant Ysgol Y Dderi i fynd tuag at blant llai ffodus yn Romania. Dymunwn siwrnai saff iddo.

Bu disgyblion blwyddyn 1 a 2 yn ymweld â Swyddfa Heddlu Aberystwyth fel rhan o'u thema Ffrindiau yn ystod yr hanner tymor yma. Gwelwyd y gwisgoedd arbennig, y ceir, y celloedd a chael cyfle i gymryd olion bysedd.



Hoffwn ddymuno ymddeoliad hapus iawn i Mrs Mair Spate wedi 42 o flynyddoedd o wasanaeth yn Ysgol Y Dderi. Mae Mrs Spate wedi gweithio yn yr ysgol ers y cychwyn cyntaf ac wedi casglu arian cinio'r plant yn ddiwyd. Mi fydd yn rhyfedd iawn hebdi ond dymunwn ymddeoliad hir ac iachus iddi.

Diwrnod T. Llew Jones

Fel rhan o ddathliadau 'Diwrnod T Llew Jones' eleni fe wnaeth disgyblion ysgolion cynradd ardal Llambled ddarllen cerdd 'Yr Hen Dŷ Gwag' ac yna mynd ati i ysgrifennu stori yn seiliedig ar y gerdd o dan arweiniad Mrs Delor James. Cyfrannodd bob ysgol baragraff i'r stori ac yna trosglwyddo eu rhan hwy o'r stori i ysgol arall yn y clwstwr gan ddefnyddio system gyfathrebu 'Skype'.

Cyfrannwyd at y stori gan yr ysgolion canlynol - Ysgol Bro Pedr (Cynradd), Ysgol Carreg Hirfaen, Ysgol Dyffryn Cledlyn, Ysgol y Dderi, Ysgol Llanllwni ac Ysgol Llanybydder.

Darllenwch y stori a mwynhewch!

Yr Hen Dŷ Gwag

Un noson dywyll fel y nos heb leuad a sêr, es i am dro yn y goedwig ddirgel. Cerddais ar y llwybr llithrig a mwldyd a slwtsh, slwtsh fy esgidiau yn iasol. Yn sydyn, hedfanodd ystum ataf a chefais ofn. Roedd y coed yn sibwrdd cyfrinachau i'w gilydd. Clywais sŵn gwichian hen ddrws yn y pellter. Beth ydoedd? Cerddais yn llechwraidd, lled-ofnus a gwelais fwthyn bach, amddifad.

Camais yn bryderus fel cadno slei yn hela bwyd nes cyrraedd y tŷ. Sylwais ar y briciau bregus tu allan. Ceisiais afael ym mwlyn y drws rhyddlyd a'i agor. Atebodd y drws gan wichian. Syllais ar yr anghenfil o bry cop ar we fel bynji. Sgrechiodd y ffenest deilchion. Roedd y lleithder yn crychu fy nhrwyn fel oren wedi llwydo. Ar y wal roedd craciau fel hen wythiennau. Clywais ddŵr yn diferu fel rhythm cân. Uwchben gwelais galeidosgôp o drawstiau. Yn sydyn, clywais olion traed lan lofft, beth tybed? Cerddais yn anturus drwy'r llanast llwyd i waelod y grisiau.

Curodd fy nghalon fel cwnigen ofnus a chamais yn araf obeithiol ar y grisiau sigledig cyntaf. Cydais yn chwyslyd ar y canllaw a damsgenais gratsh gwydr dan draed gan wasgaru a malu'r crisial. Oedais yn sydyn i edrych ar y fframiau lluniau du a gwyn fel rôl ffilm o'r gorffennol. Ar flaen fy nhraed, malwodais heb siw na miw i frig y grisiau i ben draw'r carped a oedd fel tafod neidr. Ar y landin, roedd hen, hen bâr o esgidiau lledr, biws-frown yn llawn llwch. Yng nghornel fy llygaid, gwelais ddrws cilagored a golau di-liw yn fflachio'n hudol. Anelais at y golau, cymerais anadl ddofn a chamais i mewn i'r ystafell gul. Edrychais ar y drych toredig a gwelais mwy nag un copi ohonof i fy hun. Tu ôl i fy nghysgod, aeth y drws glep! Curodd fy nghalon yn gyflymach ac yn gyflymach. Yn y gornel, clywais y gadair siglo yn fy ngwahodd ac ar y llawr, yn agos at y gadair, roedd dyddiadur coch caeedig. Estynnais am y dyddiadur a'i agor.

Wrth ei agor, teimlais yn bryderus fel cyw bach mewn llaw, ond roedd y tudalennau yn gafael fel magned. Tudalennau crychlyd fel dail crin yr Hydref oedd i'r dyddiadur. Troais y tudalennau llychlyd, llaith a gweld ysgrifen glwm, hynafol. Roedd y cyfan yn ddi-liw fel hen gartŵn du a gwyn. Dechreuais ddarllen yr iaith anghyfarwydd yn chwilfrydig fel lleidr yn chwilio am drysor. Curodd fy nghalon fel losin yn ffrwydro. Roeddwn ar bigau'r drain wrth droi at gefn y llyfr, gan deimlo'n nerfus fel unawdydd mewn eisteddfod. Yn cuddio'n llechwraidd ar bwys y clawr, roedd hen bluen ysgrifennu. Hen bluen ysgrifennu unig ydoedd. Ar glawr y llyfr, gwelais goeden deulu anorffenedig. Aeth ias i lawr fy nghefn wrth i mi adnabod rhai o'r enwau.

Ail-ddarllenais y goeden deulu, gan adnabod enw Margaret Gillian Davies, sef fy hen, hen fam-gu a Rhiannon Scarlett ei chwaer. Curodd fy nghalon yn ofnus fel oen bach newydd anedig. Teimlais yn ddryslyd, pwyoedd y bobl hyn? Yn sydyn, gwichiodd y drws ar agor i sŵn y gwynt yn chwibanu. Camais yn hyderus allan i'r landin, fu gynt mor arswydus. Dyma gyfrinach i'w chadw dan glo, i neb ond fi fy hun.

Llambled



Plant Ysgol Sul Noddfa yn cyflwyno carden arbennig o'u gwaith yn dymuno'n dda i'r Parchedig Jill Tomos ar ei hymddeliad fel Gweinidog Cylch Teifi. Pob dymuniad da iddi hi a Hywel.



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.


Annwyl ffrindiau,

Wel helo blantos, sut ydych chi? Mae mis Tachwedd wedi cyrraedd eleni eto ac mae noson Guto Ffowc yn agosáu! 'Dw i wrth fy modd yn gweld y tân gwyllt ar noson Guto Ffowc ac mi fydda i a'm ffrindiau i gyd yn brysur iawn yn creu coelcerth enfawr. Ydych chi'n hoffi gwyllo tân gwyllt? Ble fyddwch chi'n mynd i'w wyllo eleni? Cofiwch blant mae'n bwysig i chi fod yn ofalus ar Noson Guto Ffowc gan fod tân gwyllt yn gallu bod yn beryglus iawn. Rhaid cofio gwisgo menig ac aros yn agos iawn i'ch rhieni. Cofiwch fwynhau hefyd!

Bu nifer ohonoch chi'n brysur iawn yn ystod y mis yn lliwio llun yr Hydref ac roedd ôl ymdrech i'w weld ym mhob un o'r lluniau. Da iawn chi gyd - penigamp! Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu yn enwedig i Sara Fflur Pugh o Ffair Rhos am lun lliwgar a thaclus o ddail yr Hydref. Ond ar y brig y mis hwn mae Elliw Grug Davies, Dolydd Dŵr, Drefach. Diolch Elliw am ddefnyddio lliwiau'r hydref i greu llun ffantastig. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Ewch ati nawr i liwio llun mis Tachwedd! Danfonwch nhw ataf i cyn dydd Llun, Tachwedd 26ain.

Hwyl am y tro,



Enillydd
y mis!
Elliw
Grug
Davies

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:



Ticiwch os ydych yn fodlon i enw'ch plentyn ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

Llofnod Rhiant/Ceidwad:

Gohebiaeth



Radio Cymru yn cofio'r 11 Tachwedd

Mae'n anodd iawn dychmygu'r awyrgylch yng Nghymru gan mlynedd yn ôl. Roedd y Rhyfel wedi cipio cenedlaeth gyfan o fechgyn ifanc gan adael teuluoedd mewn galar a'r rhai a ddychwelodd wedi gweld erchyllterau yn y ffosydd. Roedd 'na bobl oedd yn gwrthwynebu'r ymladd ac eraill oedd yn argyhoeddiedig fod rhaid ymladd i'r eithaf i orchfygu'r Almaen. Roedd 'na rieni wedi eu siomi gan arweinwyr fel John Williams, Brynsiencyn oedd wedi tywys eu meibion i ryfel, ac roedd 'na bobl oedd wedi pydru byw mewn carchardai oherwydd eu gwrthwynebiad i'r ymladd. Yng nghanol hyn i gyd roedd pobl yn canu caneuon am eu profiadau cymysg gan ddefnyddio tonau cyfarwydd eu dydd. Roedd 'na ganu am hiraeth, am ddewrder, am gariad, am oferedd y cyfan a hyd yn oed am y margarine yr oedd yn rhaid dygymod ag o.

Er mwyn rhoi blas i ni o'r cyfnod, mae Radio Cymru yn atgyfodi rhai o'r caneuon hynny yn y rhaglen Rhyfelgan a ddarlledir ar y 9fed a'r 11eg. Tachwedd. Bydd Cerddorfa Genedlaethol y BBC yn cyfeilio i Shan Cothi, Rhys Meirion a Trystan Llŷr Griffiths ac fe fydd Sian James yn canu rhai alawon gwerin yn ogystal. Ond er mwyn dod â'r profiad yn nes atom, mae rhai o gyflwynwyr Radio Cymru yn cyflwyno monologau arbennig o waith Aled Jones Williams er mwyn dod â phrofiad y milwr, y recriwtiwr, y fam, y gwrthwynebydd cydwybodol, y cariad, y newyddiadurwr, y nyrs a'r gwleidydd yn fyw i ni. Bydd yn brofiad newydd i Aled Hughes, Ifan Evans, John Hardy, Dafydd Meredydd, Lisa Gwilym, Dei Tomos, Nia Roberts, Caryl Parry Jones a Tudur Owen i gyflwyno cymeriadau amrywiol o 1918 y gallant uniaethu â nhw. Bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno gan Beti George.

Darlledir Rhyfelgan am 10 ar y 9 Tachwedd ac am 11.30 ar yr 11 Tachwedd ar Radio Cymru.

Eisteddfod Papurau Bro

Cynhaliwyd Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach ar y 12fed Hydref. Trefnwyd y noson gan wirfoddolwyr Papur Bro Y Ddolen. Llongyfarchiadau i dîm Clonc a fuodd yn cystadlu. Ben Lake oedd yn arwain y noson gydag Elen Pencwm ac Aled Evans yn beirniadu.

Papur Bro'r Angor enillodd y noson ond cafwyd nifer o eitemau gan Clonc hefyd. Llefaru darn heb atalnodi - cydradd 3ydd Dylan Lewis; Tric - cydradd 3ydd - Rhys Bebb Jones. Cyflwyno Darn Dramatig - cydradd 1af - Clonc sef



Dylan, Rhys, Shan, Nia a Mary. Triawd y Buarth - Clonc yn 2il sef Dylan, Rhys a Shan. Cân Actol - Ar lan y Môr - cydradd 2il Clonc.


Coed Nadolig
Parcyrhos
Christmas Trees
01570 434 393
07875 475 961

Llanllwni yn dathlu



C.F.F.I. Llanllwni yn dathlu ennill y wobwr gyntaf yn yr Adran Gwaith Cartref yn Eisteddfod C.F.F.I. Sir Gâr yn Neuadd San Pedr yng Nghaerfyrddin yn ystod mis Hydref. Hefyd, enillon nhw yr ail safle ar ddiwedd yr Eisteddfod. Pob lwc i'r cystadleuwyr sydd yn mynd ymlaen ar lefel Cymru yn y Barri ganol mis Tachwedd.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambod, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breics * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

Nadolig 2018

Os ydych am hysbysebu eich busnes yn rhifyn mis Rhagfyr o CLONC gallwch e-bostio ysgrifennydd@clonc.co.uk.
 Pris bloc bach yn dechrau yn £12.00.
 Rhaid yw derbyn rhain erbyn Tachwedd 16eg.
 NEU os hoffech anfon cyfarchion Nadolig i'ch teulu, cymdogion ayb - £10 yw'r gost am bloc bach.
 Gwerthfawrogrir derbyn eich cyfarchion erbyn Tachwedd 23ain.

LHP

• CYFRIFWYR
 • ARCHWILWYR
 • YMGYNGHORWYR

 CYFRIFWYR
 SIARTEDIG
 ICAEW

81 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AB

CYFRi
 CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
 INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
 T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA
 Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS
 Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.

Ydych chi rhwng 8 ac 14 oed?
Diddordeb mewn...
MINECRAFT?

◆ **Y GYSTADLEUAETH** ◆
 Ar gyfer grwpiau 2-8 person, ym mlynnyddoedd ysgol 4-9.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Geredigion ym mis Awst 2020. Eich tasg chi yw dylunio Maes yr Eisteddfod o'ch dychymyg chi. Recordiwch fideo 'walkthrough' Cymraeg, dlm mwy na 5 munud, yn cyflwyno'ch gwaith. Byddwch yn gwbl greadigol ac unigryw...

Dyddiad cau - 14 Rhagfyr 2018

◆ **Y WOBWR** ◆
Dosbarth Meistr Minecraft


◆ **SUT I GYSTADLU?** ◆
 Gallwch osod eich fideo ar DVD neu cofbin a'i anfon, ynghyd â'r ffurflen gais, at:
 Cered, Y Ganolfan, Campws y Theatr, Dyffryn Aeron, SA488AF

This is a Welsh language Minecraft competition open to groups of between 2-8 young people, in years 4 - 9 in Ceredigion. Competitors should create their masterpiece within Minecraft and create a Welsh language walkthrough video presenting their creation.

Manylion pellach a ffurflen gais/Further details and application form
cered@ceredigion.gov.uk



   [ceredmenteriaith](https://www.facebook.com/ceredmenteriaith)
 [MICered](https://twitter.com/MICered)



Lowri Fflur Davies ac Elin Williams, C.Ff.I. Cwmann – 2il Llyfr Lloffion.



Elan Jones, C.Ff.I. Cwmann 1af Llefaru 18 oed neu Iau ac 2il Unawd 16 neu Iau.



Grŵp Dawnsio Disgo C.Ff.I. Cwmann 2il. Sophie yn absennol o'r llun yma.



Alpha Evans, C.Ff.I. Cwmann 3ydd Unawd Offerynnol 26 oed neu Iau ac Elan Jones, C.Ff.I. Cwmann 3ydd Unawd Alaw Werin 26 oed neu Iau.



Triawd Doniol C.Ff.I. Llanllwni – Ifor, Siriol a Hefin 3ydd. Yn y llun hefyd mae'r beirniad, Geriant Lloyd.



Meimio i Gerddoriaeth C.Ff.I. Llanllwni – 3ydd



Ble Awn Ni?

Siopa, Ciniawa, Cwrdd â Ffrindiau



Os ydynt yn byw mewn cymuned wledig ac nad oes ganddynt wasanaeth bws rheolaidd, gallai **Bwcabus** helpu. Mae **Bwcabus** yn galluogi pobl i deithio rhwng pentrefi a threfi lleol neu i gysylltu â'r prif wasanaethau.

Llinell archebu ar agor 7 diwrnod yr wythnos o 7am - 7pm

01239 801 601

Gwasanaeth yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Sadwrn o 7am - 7pm

Mwynhewch deithiau **T1** RHAD AC AM DDIM bob **T5** penwythnos ar rwydwaith

TrawsCymru™

